ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru

Hydref 2023

CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham? 3

Adran 8. Casgliad 7

Adran 9. DATGANIAD 12

ASESIADAU EFFAITH LLAWN 13

A.Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plan 13

B.Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb 21

C.ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG 57

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Cyd-destun

Mae'r Papur Gwyn, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith Integredig hwn, yn nodi amrywiaeth o gynigion ar gyfer newidiadau i'r ddeddfwriaeth, er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Cyn ystyried y cynigion yn y Papur Gwyn hwn, gall fod yn ddefnyddiol i'r darllenydd ymgyfarwyddo â rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (y Ddeddf Tai). Y Ddeddf hon sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol presennol sy'n llywodraethu gwasanaethau digartrefedd, a chyfeirir ati drwy gydol y ddogfen hon. Mae llawer o'r cynigion yn y ddogfen hon yn ymwneud â diwygio'r darn hwn o ddeddfwriaeth.

Ar ddechrau pandemig COVID-19, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid a chanllawiau ychwanegol i awdurdodau lleol ynghylch darparu tai neu lety dros dro er mwyn sicrhau nad oedd neb heb lety a chymorth addas. Nododd adroddiad Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021, a ariannwyd gan Crisis, fod digartrefedd yn flaenoriaeth uchel yng Nghymru cyn y pandemig, gyda Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd annibynnol yn datblygu'r sail ar gyfer Cynllun Gweithredu lefel uchel. Fodd bynnag, mae'r dull 'neb heb help' a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig wedi amlygu pwysigrwydd mynd i'r afael â digartrefedd.

Mae Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel 2021 - 2026 yn amlinellu bod yr argyfwng tai a grëwyd gan y pandemig wedi darparu cyfle unigryw i wneud newidiadau radical i'r systemau a'r prosesau sy'n atal digartrefedd yng Nghymru.

Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn seiliedig ar argymhellion a chyngor a roddwyd i Lywodraeth Cymru gan Banel Adolygu Arbenigol Annibynnol, a alwyd ynghyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd i adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, a gwneud argymhellion penodol ar gyfer diwygiadau. Mae'r diwygiadau arfaethedig wedi'u gwreiddio ym mhrofiad uniongyrchol pobl o ddigartrefedd ac, yn ogystal â hyn, mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod digwyddiadau ymgysylltu ag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a sefydliadau yn y trydydd sector wedi cael eu hystyried.

Crynodeb o'r diwygiadau arfaethedig

Yn gyntaf, bydd y Papur Gwyn yn nodi'r cefndir a'r cyd-destun polisi ar gyfer y diwygiadau arfaethedig cyn amlinellu ein cynigion o dan y themâu canlynol:

- Diwygio'r ddeddfwriaeth graidd bresennol mewn perthynas â digartrefedd.
- Rôl gwasanaeth cyhoeddus Cymru o ran atal digartrefedd.
- Cynigion wedi'u targedu er mwyn atal digartrefedd ar gyfer pobl yr effeithir yn anghymesur arnynt.
- Mynediad at dai.
- Gweithredu.

Effaith

Fersiwn ddrafft yw hon o Asesiad Effaith Integredig o'r cynigion a geir yn y Papur Gwyn. Mae'r AEI drafft yn ddogfen sy'n datblygu ac rydym yn chwilio am dystiolaeth ychwanegol ac amgen er mwyn helpu i lywio ein cynigion. Caiff AEI diwygiedig ei gyhoeddi ochr yn ochr ag unrhyw Fil yn y dyfodol a chaiff ei ddiwygio yn unol â'r cynigion wrth iddynt esblygu.

Ymhlith effeithiau cadarnhaol mwyaf arwyddocaol ein cynigion mae'r canlynol:

- Bydd y risg o ddigartrefedd yn cael ei hatal mor gynnar â phosibl a bydd y cyfrifoldeb am ganfod ac atal digartrefedd yn cael ei rannu gan bob rhan o wasanaeth cyhoeddus Cymru.
- Bydd yr awdurdod tai lleol yn cynnig gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n ystyriol o drawma a arweinir gan anghenion y cleient, lle bynnag y bo modd.
- Bydd y system yn haws i'w defnyddio ac, i'r rhai y bydd angen iddynt ei defnyddio, bydd yn cynnig mwy o gymorth cydgysylltiedig amlasiantaethol er mwyn diwallu amrywiaeth o anghenion cymorth.
- Bydd safonau'r llety dros dro sydd ar gael yn well a bydd gwelliannau pellach yn digwydd dros amser.
- Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y defnydd o dai cymdeithasol i roi diwedd ar ddigartrefedd ac yn defnyddio amrywiaeth o opsiynau eraill.
- Caiff camau gweithredu wedi'u targedu eu cymryd er mwyn gwella profiad y bobl sydd fwyaf tebygol o wynebu effeithiau digartrefedd.

Tymor hir

Mae'r cynigion hyn yn rhan o broses hirdymor o drawsnewid y system digartrefedd a thai, fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio. Bydd y diwygiadau'n helpu i gyflawni nod polisi hirdymor Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Ailgartrefu Cyflym (gallu pobl ddigartref i gael tai hirdymor yn gyflym, dod yn fwy hunangynhaliol ac aros yn eu tai) a chynnal y newid sylweddol i arferion a gyflawnwyd mewn ymateb i bandemig y Coronafeirws.

Atal

Bydd y cynigion hyn yn helpu i dorri cylchoedd negyddol a nodi a lliniaru achosion sylfaenol digartrefedd drwy ddull ataliol sy'n seiliedig ar waith partneriaeth. Mae'r Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (2019) yn datgan mai gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw Cymru lle rydym yn cydweithio i atal digartrefedd a sicrhau ei fod yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto. Fel yr addunedwyd yn y fersiwn ddiweddar o Raglen Lywodraethu Cymru 2021-2026, nod y diwygiadau arfaethedig yw "diwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym". Bydd hyn yn golygu nodi'r rhai sy'n wynebu risg o ddigartrefedd a'u hatgyfeirio at wasanaethau cymorth perthnasol fel y gellir cynnal ymyriadau ystyrlon cyn i'r achosion droi'n argyfyngus.

Cydweithio

Mae Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod digartrefedd yn flaenoriaeth draws-sector a bod angen i bob gwasanaeth cyhoeddus ymateb i faterion sy'n berthnasol i ddigartrefedd. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gyflwyno ymateb amlasiantaethol er mwyn darparu gwasanaethau cymorth digonol, yn enwedig i'r rhai ag anghenion cymhleth.

Cyfranogiad

Mae Adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi bod yn rhaid i gorff cyhoeddus ystyried pwysigrwydd cynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru wrth wneud penderfyniadau sydd o ddiddordeb iddynt neu sy'n effeithio arnynt. Mae gwaith ymgysylltu â'r rhai sydd â phrofiad uniongyrchol o ddigartrefedd wedi llywio'r diwygiadau arfaethedig. Am fod poblogaeth ddigartref Cymru yn amrywiol ac yn gymhleth, fel rhan o'r gwaith ymgysylltu hwn, ystyriwyd y croestoriadedd rhwng digartrefedd a'r nodweddion gwarchodedig a amlinellir yn y Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

Integreiddio

Mae'r Papur Gwyn wedi'i wreiddio ym mhrofiad uniongyrchol pobl o ddigartrefedd. Mae Cymorth Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, wedi gweithio gyda mwy na 300 o bobl sydd â phrofiad uniongyrchol o ddigartrefedd, gan gynnwys pobl sy'n byw mewn llety dros dro, pobl ifanc, pobl sy'n gadael gofal, goroeswyr camdriniaeth a phobl yn y carchar. At hynny, er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei lywio gan leisiau a phrofiadau pobl â nodweddion gwarchodedig, comisiynwyd Tai Pawb i gyflawni gwaith ymgysylltu â ffocws gyda cheiswyr lloches, ffoaduriaid, pobl anabl, pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, Sipsiwn a Theithwyr, pobl hŷn a phobl LHDTC+.

Rydym hefyd wedi gwneud amrywiaeth o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y trydydd sector, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac wedi gwneud gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid arbenigol ar ystod o bynciau gan gynnwys

digartrefedd a thrais yn erbyn menywod a cham-drin domestig a thrais rhywiol, rôl iechyd a gofal cymdeithasol, iechyd meddwl a defnyddio sylweddau, anabledd a'r System Cyfiawnder Troseddol.

Cost ac Arbedion

Caiff Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh) drafft ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Papur Gwyn, ynghyd â'r AEI drafft hwn. Mae'r AERh drafft yn rhoi asesiad cychwynnol o gostau a buddiannau'r opsiynau o ran cynigion i newid y gyfraith, er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Mecanwaith

Y cynnig yw y dylid cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. Caiff Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei gwblhau ochr yn ochr â'r Bil.

ADRAN 8. CASGLIAD

8.1 Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi helpu i'w ddatblygu?

Mae'r Papur Gwyn wedi'i wreiddio ym mhrofiad uniongyrchol pobl o ddigartrefedd gyda mwy na 300 o bobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd neu sydd wedi wynebu risg o ddigartrefedd yn cyfrannu eu syniadau a'u harbenigedd at y gwaith datblygu.[1]

Ymgysylltodd Cymorth Cymru â phobl ledled Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn llety dros dro, pobl ifanc, y rhai sy'n gadael gofal, goroeswyr camdriniaeth a phobl yn y carchar, er mwyn darparu tystiolaeth ynghylch y realiti o fod yn ddigartref yng Nghymru.[2] Er mwyn sicrhau bod unrhyw groestoriadedd rhwng digartrefedd a nodweddion gwarchodedig yn cael ei nodi'n gynnar, comisiynwyd Tai Pawb i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid, pobl anabl, pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, Sipsiwn a Theithwyr, pobl hŷn a phobl LHDTC+.[3]

Ceisiwyd hefyd ymgysylltu â phlant dibynnol o dan 16 oed mewn partneriaeth â Plant yng Nghymru. Yn anffodus, ni lwyddodd y prosiect hwn i ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc o ganlyniad i faterion yn ymwneud â sensitifrwydd a moeseg. Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid perthnasol ac maent wedi llywio'r Papur Gwyn. Rydym yn gobeithio comisiynu gwaith ychwanegol yn ystod y cyfnod ymgynghori i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

Ymgysylltwyd â'r rhanddeiliaid canlynol hefyd: Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, cynllunio strategol y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Grŵp Cynhwysiant Iechyd Llywodraeth Cymru, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, awdurdodau lleol, y trydydd sector, y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd a Chonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant.

Bydd gwaith ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o ddigartrefedd yn parhau, ar y cyd â gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach.

8.2 Pa effeithiau, yn gadarnhaol ac yn negyddol, fu'r rhai mwyaf arwyddocaol?

Dylid defnyddio'r adran hon er mwyn helpu i gwblhau adran 6 o'r templed Cyngor Gweinidogol

Mae'r diwygiadau hefyd yn rhoi cyfle i sicrhau arbedion sylweddol i awdurdodau tai lleol a'u partneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus dros y tymor hwy. Bydd y diwygiadau'n ffurfioli'r dull Ailgartrefu Cyflym a gydnabyddir yn rhyngwladol ac yn atgyfnerthu arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sef y ffordd fwyaf effeithiol o leihau digartrefedd craidd. Mae'r arferion hyn yn cynnwys cynyddu ymdrechion i atal

[1] Arbenigwyr drwy brofiad (cymorthexperts.cymru)
[2] Arbenigwyr drwy brofiad (cymorthexperts.cymru)
[3] Experiences-of-homelessness-Final-Version-PDF.pdf (taipawb.org)

digartrefedd i'r eithaf, ehangu'r cyfrifoldeb am ddigartrefedd i'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach, cynyddu dyraniadau tai cymdeithasol i aelwydydd digartref a rhoi cymorth tenantiaeth i'r bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddigartrefedd mynych.

Nod y diwygiadau arfaethedig a amlinellir yn y Papur Gwyn yw sefydlu dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn ac sy'n fwy ystyriol o drawma ar gyfer darparu gwasanaethau digartrefedd a chyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau bod digartrefedd yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto. Yn ystod gwaith ymchwil gyda phobl â phrofiad uniongyrchol o fod yn ddigartref a derbyn gwasanaethau digartrefedd, nodwyd yr heriau cyffredin canlynol:

- Anhawster cael pobl i ddeall neu ddatrys eu sefyllfaoedd.
- Trawma blaenorol yn cael ei ailadrodd/atgyfnerthu wrth ddefnyddio gwasanaethau gwahanol.
- Rhwystrau i hunaneirioli a/neu ddarparu tystiolaeth.
- Problemau cyfathrebu a chydgysylltu rhwng gwasanaethau tai a gwasanaethau cyhoeddus ehangach.
- Yr angen am ymgysylltiad gan asiantaethau allanol.

Un o brif effeithiau'r diwygiadau arfaethedig yw y dylai gwasanaethau, drwy weithredu cynlluniau tai personol, fod yn fwy personol a rhoi mwy o ddewis a mewnbwn i unigolion yn eu hachosion. Dylai hyn gael gwared ar rai o'r rhwystrau a grybwyllwyd eisoes sy'n wynebu unigolion o ran hunaneirioli a/neu ddarparu tystiolaeth a allai wella eu sefyllfa. Bydd defnyddio cynlluniau tai personol hefyd yn hyrwyddo mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau, gan annog defnyddwyr gwasanaethau i ymgysylltu mwy â'u hachosion ac mae'n cyd-fynd ag amcan llesiant Llywodraeth Cymru i gynnwys pobl.

Yn ogystal â hyn, bydd dyletswydd atal estynedig o 56 diwrnod i 6 mis neu pan ddaw Hysbysiad Adennill Meddiant i law yn galluogi gwasanaethau i atgyfnerthu eu gwaith i atal digartrefedd. O dan y diwygiad arfaethedig hwn, gall staff gwasanaeth digartrefedd weithredu'n gynt i gymryd camau rhesymol er mwyn sicrhau llety neu sicrhau nad oes sefyllfa'n codi lle nad yw llety ar gael mwyach. Bydd hyn yn helpu i greu Cymru sy'n fwy cydnerth lle mae gwasanaethau tai mewn sefyllfa well i fynd i'r afael ag effeithiau sefyllfaoedd argyfwng.

Drwy ymestyn dyletswyddau i wasanaethau cyhoeddus ehangach e.e., iechyd, camddefnyddio sylweddau, addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac ati, dylid gallu gwella cydlyniant a chreu system sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn lle gall defnyddwyr gwasanaethau gael eu hatgyfeirio at y gwasanaethau cywir er mwyn sicrhau bod eu hanghenion unigol yn cael eu rheoli'n briodol. Gall sefyllfaoedd sy'n arwain at ddigartrefedd neu risg o ddigartrefedd gael eu trin yn well hefyd drwy weithio mewn ffordd amlddisgyblaethol gan nad mater tai yn unig yw digartrefedd ac mae ffactorau eraill yn aml dan sylw. Drwy nodi ar gam cynharach yr arwyddion y bydd unigolyn yn wynebu risg o ddigartrefedd yn y dyfodol, gellir cynnal ymyriadau ystyrlon yn gynt. Yn sgil hyn, dylai achosion lle mae unigolion yn dod i sylw gwasanaethai tai

awdurdodau lleol dro ar ôl tro fod yn llai cyffredin am y bydd yr unigolion hyn yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gadw eu llety.

Bydd cyflwyno mesurau ataliol wedi'u targedu ar gyfer grwpiau yr effeithir yn anghymesur arnynt yn helpu i wneud cymorth gan wasanaethau tai a digartrefedd yn fwy hygyrch. Y diwygiadau arfaethedig a allai gyfrannu at hyn yw'r cynnig i ddileu'r prawf “angen blaenoriaethol” a “bwriad” a diwygio'r prawf “cysylltiad lleol” fel y gellir ystyried nodweddion gwarchodedig ac amgylchiadau'r ymgeisydd yn well. Bydd cael gwared ar y profion “angen blaenoriaethol” a “bwriad” yn annog ymateb mwy ystyriol o drawma i ddigartrefedd nad yw'n herio pobl i brofi lefel eu hangen ac nad yw'n pennu bod pobl yn haeddu cymorth neu nad ydynt yn haeddu cymorth.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio gwella mynediad at dai drwy gynnig y dylai'r rhai nad oes ganddynt angen o ran tai gael eu tynnu oddi ar gofrestrau tai cymdeithasol. Effaith gadarnhaol hyn yw y byddai pobl ag angen o ran tai yn cael blaenoriaeth ac y gallent brofi cyfnodau aros byrrach am dai cymdeithasol, ond gall fod goblygiadau negyddol hefyd. Mae'n bosibl y gall staff tai awdurdodau lleol wynebu gwrthwynebiad gan wleidyddion lleol am fod gan rai cymunedau fuddiant mewn cadw pobl sydd wedi byw yn yr ardal am gyfnod hir o amser. Yn ogystal, efallai na chaiff y newid hwn effaith mor sylweddol ag y bwriadwyd os na fydd y math cywir o stoc dai ar gael.

8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r cynigion a amlinellir yn y Papur Gwyn yn cyfrannu at sawl un o'r saith nod llesiant a ragnodir yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, fel y crynhoir yn y rhestr isod:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r diwygiadau a amlinellir yn y Papur Gwyn yn cynnig y cyfle i gyfrannu'n sylweddol at Gymru sy'n decach, yn iachach ac yn fwy cyfartal, yn ogystal â chyfrannu'n ehangach at bob un o'r saith nod llesiant ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran canlyniadau ac anawsterau eraill sy'n wynebu rhai o'r bobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.

Bydd y diwygiadau arfaethedig yn helpu gwasanaethau tai i ddefnyddio dull mwy ataliol sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn ac sy'n fwy ystyriol o drawma. Yr amcan yn hyn o beth yw rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr gwasanaethau a gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch i'r rhai ag anghenion cymhleth. Bydd canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn yn gyntaf yn helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal dealltwriaeth o anghenion penodol. Bydd hyn yn cyfrannu at yr ymrwymiad i greu Cymru fwy cyfartal a Chymru fwy llewyrchus gan ei fod yn ceisio mynd i'r afael â'r anawsterau sy'n wynebu'r rhai â nodweddion gwarchodedig, anghenion cymhleth a thrawma blaenorol gyda'r nod o sicrhau y gallant gael cyfle cyfartal o ran y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae iechyd meddwl a/neu gorfforol gwael yn un o achosion amlwg digartrefedd, gyda 33% o bobl ddigartref yng Nghymru yn dweud bod eu digartrefedd presennol wedi deillio o broblem iechyd.[4] Gall effeithiau digartrefedd ar iechyd corfforol a meddwl hefyd fod yn sylweddol a chyfyngu ar fywyd. Mae gan bobl ddigartref gymarebau marwolaeth uwch o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol ac maen nhw ddwywaith yn fwy tebygol o farw o drawiad ar y galon a chlefyd cronig y galon na'r boblogaeth gyffredinol.[5] Yr oedran marwolaeth cyfartalog a gofrestrwyd ymhlith tua 741 o bobl ddigartref a fu farw yng Nghymru a Lloegr yn 2021 oedd 46 i ddynion a 42 i fenywod, tua 30 mlynedd yn llai na'r boblogaeth gyffredinol. O safbwynt iechyd meddwl, un o'r achosion marwolaeth mwyaf sylweddol a gofrestrwyd ymhlith pobl ddigartref rhwng 20 a 49 oed oedd hunan-niwed bwriadol.[6] Yn ogystal, canfu astudiaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru y gallai datblygu ymddygiadau ymdopi camaddasol yn ystod yr arddegau, neu'n gynharach na hynny, arwain at ddigartrefedd yn ddiweddarach mewn bywyd.[7]

Gall gwella'r ddarpariaeth o amgylcheddau sefydlog a diogel i fyw ynddynt a chymorth amlddisgyblaethol gan wasanaethau cyhoeddus helpu i liniaru effeithiau negyddol digartrefedd ar iechyd meddwl a chorfforol a rheoli achosion sylfaenol digartrefedd sy'n gysylltiedig ag iechyd. Bydd mynd i'r afael â'r problemau iechyd sy'n gysylltiedig â digartrefedd yn ein helpu i weithio tuag at y nod llesiant o gael Cymru iachach.

Mae Ailgartrefu Cyflym a chynyddu ymdrechion atal i'r eithaf ymhlith y polisïau mwyaf effeithiol ar gyfer lleihau digartrefedd craidd.[8] Bydd symud tuag at system sy'n cynnwys y ddwy elfen hon ymhlith eraill yn helpu i greu Cymru sy'n fwy cydnerth.

Caiff cymuned gydlynus ei diffinio fel cymuned a all addasu i newid, gan ganolbwyntio ar lesiant y bobl sy'n byw yno gyda mynediad i wasanaethau allweddol a lle gall pobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt[9]. Bydd ymrwymiad Llywodraeth

---

[4] Watson I, MacKenzie F, Woodfine L and Azam S. (2019). Gwneud Gwahaniaeth Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi. Caerdydd. Iechyd Cyhoeddus Cymru.
[5] Watson I, MacKenzie F, Woodfine L and Azam S. (2019). Gwneud Gwahaniaeth Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi. Caerdydd. Iechyd Cyhoeddus Cymru.
[6] Marwolaethau pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[7] Watson I, MacKenzie F, Woodfine L and Azam S. (2019). Gwneud Gwahaniaeth Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi. Caerdydd. Iechyd Cyhoeddus Cymru.
[8] Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021 | Crisis | Gyda'n gilydd byddwn yn rhoi terfyn ar ddigartrefedd
[9] Cohesive-Wales-Topic-1.pdf (futuregenerations.wales)

Cymru i roi diwedd ar ddigartrefedd, yn ogystal â chynigion sy'n ceisio creu newid tuag at ystyried digartrefedd fel mwy na mater tai yn unig, yn herio safbwyntiau cyhoeddus ynghylch digartrefedd, gan hyrwyddo cydberthnasau mwy cadarnhaol ac empathi mewn cymunedau.

Yn 2020, adroddodd y Cenhedloedd Unedig fod 1.6 biliwn o bobl ledled y byd yn byw mewn amodau tai annigonol, gydag oddeutu 15 miliwn yn cael eu troi allan yn orfodol bob blwyddyn, sy'n dangos bod digartrefedd yn fater hawliau dynol byd eang.[10]Mae'r Cenhedloedd Unedig yn nodi bod atal a dileu digartrefedd yn “minimum core obligation [of States] to ensure the satisfaction of, at the very least, minimum essential levels of each of the rights” o dan y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol.[11] Drwy ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn gallu rhoi mesurau ataliol cynharach ar waith mewn achosion o ddigartrefedd, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio yn unol â hyn ac yn dangos arweinyddiaeth fyd-eang o ran y modd y mae Cymru yn ymateb i ddigartrefedd.

8.3 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan ddaw i ben?

Ar ôl i'r Papur Gwyn gael ei lansio, bydd y Tîm Deddfwriaeth Atal Digartrefedd yn cynnal cyfnod ymgynghori. Caiff pob ymateb i'r ymgynghoriad ei adolygu a'i ddefnyddio i fireinio'r cynigion ymhellach fel rhan o'r broses o ddatblygu ystod o ddiwygiadau, gan gynnwys deddfwriaeth, yn y maes hwn. Caiff fersiynau diwygiedig o'r AEI a'r AERh eu cyhoeddi i gyd-fynd ag unrhyw Fil yn y dyfodol. Byddwn yn ymgynghori'n rheolaidd â rhanddeiliaid i drafod materion sy'n dod i'r amlwg.

Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y cynigion yn ystod y cam datblygu deddfwriaethol gyda rhanddeiliaid, ac ar ôl iddo ddod i ben. Bydd hyn yn cynnwys monitro a gwerthuso effeithiau.

[10] First-ever United Nations Resolution on Homelessness | DISD
[11] Homelessness and human rights | OHCHR

ADRAN 9. DATGANIAD

Datganiad

Rwyf yn fodlon bod effaith y cam arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Prif Berchennog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr:

Sarah Rhodes



Adran: Is-adran Polisi Tai

Dyddiad: 2 Hydref 2023

ASESIADAU EFFAITH LLAWN

A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLAN

1. Amcanion polisi

1.1. Mae'r Papur Gwyn yn gam ar y daith tuag at gyflawni un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, sef "*Diwygio cyfraith tai a gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym*". Mae'n tynnu ar *Y Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd* (2019), *Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel 2021-2026*, adroddiad y Panel Adolygu Arbenigol a sawl darn o waith ymchwil a nodir yn yr adrannau isod.

1.2. dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, caiff pobl sy'n preswylio gyda phlant dibynnol, pobl ifanc rhwng 16 a 17 a phobl ifanc 18-20 oed a oedd wedi derbyn gofal neu wedi cael eu maethu ar unrhyw adeg pan roeddent o dan 18 oed neu sy'n wynebu risg benodol o gamfanteisio rhywiol neu ariannol, eu categoreiddio fel pobl sydd ag angen blaenoriaethol am gymorth i gael tai. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig newidiadau i Ddeddf 2014 sy'n ceisio diwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar ac Ailgartrefu'n Gyflym.

1.3. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw creu Cymru lle mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i atal digartrefedd a, lle nad yw hynny'n bosibl, sicrhau bod y profiad o ddigartrefedd yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto. Er mwyn cyflawni hyn ac yn dilyn ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, caiff Bil ei ddatblygu. Bwriad cynigion y Papur yw bod o fudd i bobl o bob oed ar sail atal ac ymyrryd yn gynnar drwy ei gwneud yn bosibl i sefydlu un system sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ystyriol o drawma o fewn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Fel rhan o ddull system gyfan ac unigolyn cyfan, bydd gwasanaethau sector cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau tai i nodi'r rhai sy'n wynebu risg uwch o ddigartrefedd ar gamau cynharach er mwyn diwallu anghenion unigol a, lle y bo'n bosibl, atal digartrefedd. Bydd ymyrraeth gynnar yn helpu i sicrhau y gall plant a phobl ifanc gael y cymorth sydd ei angen arnynt a, lle y bo'n bosibl, nad yw eu sefyllfaoedd yn troi'n argyfyngus.

1.4. Mae llawer o elfennau i'r Papur Gwyn gan gynnwys gwaith i sicrhau y gall plant a phobl ifanc fyw mewn amgylcheddau diogel, sefydlog, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd, eu twf a'u datblygiad. Mae cynigion penodol yn ymwneud â'r canlynol:

- egluro cyfrifoldebau am ddyletswyddau i bobl ifanc 16 a 17 oed sy'n ddigartref neu sy'n wynebu bygythiad o ddigartrefedd.
- rhoi diwedd ar ddefnyddio'r system ddigartrefedd fel llwybr allan o ofal

- ymestyn y cyfnod y gall unigolion gael eu bygwth â digartrefedd o 56 diwrnod i chwe mis neu pan fo hysbysiad adennill meddiant wedi cael ei gyflwyno, gan gynyddu'r amser sydd ar gael i gyflawni gweithgarwch atal
- eithrio pobl ifanc â phrofiad o ofal a theuluoedd sydd wedi profi cam-drin domestig a mathau eraill o drais a chamfanteisio, o'r prawf "*cysylltiad lleol*"

1.5. Bydd y Papur Gwyn a'r ddeddfwriaeth ddilynol hefyd yn cwmpasu safonau a threfniadau dyrannu tai cymdeithasol, gyda'r nod o wella ansawdd ac amrywiaeth llety dros dro a mynediad at opsiynau Ailgartrefu Cyflym.

2. Casglu tystiolaeth a gweithio gyda phlant a phobl ifanc

2.1. Mae sawl darn o waith wedi cael ei gwblhau sy'n berthnasol i'r cynigion yn y Papur Gwyn. Cyfeirir at rai ohonynt isod.

2.2. Amlinellodd adroddiad Plant yng Nghymru ar ganfyddiadau'r digwyddiad Galwad am Dystiolaeth Digartrefedd Ymhlith Pobl Ifanc (o dan 16 oed) ym mis Rhagfyr 2022, sensitifrwydd o ran ymgysylltu â'r grŵp hwn o bobl ifanc, fel gwneud iddynt ail-fyw eu trawma drwy adrodd eu profiadau. Ymhlith y dystiolaeth a gyflwynwyd roedd adroddiad Upstream Cymru (2022) gan Llamau a ddatgelodd fod y mwyafrif o awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd gwneud ymchwil gyda phobl ifanc 11 i 16 oed (y grŵp oedran sy'n rhan o raglen Upstream Cymru Llamau) ac nad oeddent yn gallu darparu data cysylltiedig rhwng addysg a digartrefedd. Hefyd, gwaith Barnardo's ar ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc â phrofiad o ofal a ddatgelodd fod y rhai o dan 18 oed sy'n byw'n annibynnol ymhlith rhai o'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas. Un o'r prif ganfyddiadau o ddigwyddiad 2022 oedd bod diffyg gwaith ymchwil a gwaith cyfranogol ynghylch digartrefedd gyda'r grŵp hwn o bobl ifanc. O ganlyniad, byddwn yn sicrhau bod trefniadau dynodedig â'r garfan hon yn cael eu gwneud pan fyddwn yn cynllunio rhaglen ymgynghori ein Papur Gwyn.

2.3. Amlygodd prosiect Arbenigwyr trwy Brofiad (2023) Cymorth Cymru, adroddiad *Don't Let Me Fall Through the Cracks* (2020) gan End Youth Homelessness Cymru ac adroddiad *Atal Digartrefedd mewn Unigolion sydd â Phrofiad o Ofal* (2020) gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rwystrau sylweddol i bobl ifanc o ran cael gafael ar dai. Yn ogystal, edrychodd adroddiad End Youth Homelessness Cymru *Out on the Streets LGBTQ+ Youth Homelessness in Wales* (2020), gwaith ymchwil AKT *'LGBT Youth Homelessness: A UK National Scoping of Cause, Prevalence, Response and Outcome (2015)'* a gwaith ymchwil Tai Pawb '*The experiences of homelessness of people with protected characteristics in Wales'* (2023) ar heriau o ran tai a digartrefedd sy'n ymwneud â phobl ifanc LHDTC+ a'r nodweddion gwarchodedig eraill. Drwy gydol y broses o ddod o hyd i help er mwyn ceisio sicrhau tŷ a cheisio osgoi digartrefedd, codwyd y materion canlynol:

- diffyg hyder wrth gysylltu â gwasanaethau tai awdurdodau lleol
- gorfod ailadrodd profiadau i weithwyr proffesiynol amrywiol yn y sector a theimlo eu bod yn cael eu beirniadu a'u stigmateiddio ac nad yw'r system yn eu cefnogi
- prinder adnoddau o ran staff a chyllid
- diffyg cymorth gan gynnwys cyfeiriadau gan rannau eraill o'r sector cyhoeddus: gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd meddwl/CAMHS, addysg a gwasanaethau ieuenctid
- cyfathrebu gwael rhwng amrywiol rannau'r sector cyhoeddus ac o ganlyniad i hynny, cyfathrebu gwael â phlant a phobl ifanc
- diffyg dealltwriaeth o anghenion penodol pobl ifanc LHDTC+ y gwelir eu bod yn cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y data digartrefedd gyda llawer ohonynt yn gudd o olwg gwasanaethau cyhoeddus. diffyg dealltwriaeth o hunaniaeth rhywedd
- pobl sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus a chymhlethdod y ddeddfwriaeth, y polisïau a'r canllawiau sy'n rheoli eu hawliau ar lefel y DU a Chymru
- diffyg llety dros dro addas a defnyddio lleoedd fel llochesau nos
- gwrthdaro rhwng gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus dros gyfrifoldebau
- anfforddiadwyedd tai parhaol

2.4. Un o'r prif ganfyddiadau oedd bod pobl ifanc yn aml yn teimlo nad oedd eu pryderon a'u hanghenion yn cael eu cymryd o ddifrif ac y gellid gwneud mwy i atal digartrefedd p'un a oedd y plant a'r bobl ifanc dan sylw yn rhan o grwpiau teulu ai peidio.

2.5. Yn gysylltiedig â hyn, nododd adroddiad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar atal digartrefedd pobl ifanc (2018) y gallai camau i atal digartrefedd ymhlith plant a phobl ifanc gael eu hatgyfnerthu, eu cefnogi, eu gorfodi a'u hamddiffyn drwy ddeddfwriaeth a pholisi cymdeithasol. Canfuwyd bod yr ymateb presennol i ddigartrefedd, sy'n canolbwyntio ar argyfyngau, yn siomi pobl ifanc gan fod cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar yn cael eu colli, ac mae gwasanaethau'n aml yn methu â symud pobl ifanc allan o ddigartrefedd yn gyflym. Efallai y gallai hyn ddeillio o'r fiwrocratiaeth bresennol sy'n seiliedig ar ‘seilos’ sy'n rhan o'r prosesau hyn, nad ydynt yn hwyluso ymateb system gyfan er mwyn diwallu anghenion pobl ifanc. Mae'r un adolygiad yn argymell y dylai gwasanaethau ymgysylltu â phobl ifanc yn gynnar ac yn aml wrth gynllunio prosesau sy'n mynd i'r afael â'u sefydlogrwydd tai a chymorth cofleidiol angenrheidiol. Byddai cael gwared ar arferion llafurus yn helpu i symleiddio'r system fel y gellir ymgysylltu'n fwy ystyrlon â defnyddwyr gwasanaethau.

2.6. Mae adroddiad Shelter; The impact of homelessness and bad housing on children’s education: A view from the classroom ac adroddiad Llywodraeth Cymru: Absenoldeb o'r ysgol ymhlith plant o deulu digartref hefyd wedi llywio'r Papur Gwyn mewn perthynas â rôl addysg.

3. Dadansoddi’r dystiolaeth ac asesu’r effaith.

3.1. Un o brif nodau'r Papur Gwyn yw symud y system ddigartrefedd tuag at roi pwyslais cryfach ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Fel yr amlygwyd yn y gwaith ymchwil y cyfeiriwyd ato eisoes, mae plant a phobl ifanc yn teimlo bod hwn yn faes y gellid ei wella. Mae'r ymchwil wedi llywio cynnig y Papur i ymestyn y cyfnod a ragnodir ar hyn o bryd ar gyfer gwneud gweithgarwch atal o'r 56 diwrnod presennol i chwe mis neu pan fo hysbysiad adennill meddiant wedi cael ei gyflwyno. Un o'r effeithiau cadarnhaol a gaiff hyn ar blant a phobl ifanc yw y bydd yn lleihau eu risg o fynd yn ddigartref tra bod camau ataliol yn cael eu cymryd.
3.2. Mae'r cynigion yn anelu at gael gwared ar brofion “angen blaenoriaethol” a “bwriad” a diwygio'r prawf “cysylltiad lleol” er mwyn gallu ystyried amgylchiadau'r ymgeisydd yn well. Y nod yn hyn o beth yw datblygu dull o ddarparu gwasanaethau digartrefedd a thai sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn ac sy'n fwy ystyriol o drawma ac nad yw'n herio pobl i brofi lefel eu hangen ac nad yw'n pennu bod pobl yn haeddu cymorth neu nad ydynt yn haeddu cymorth. Byddai hyn hefyd yn cael effaith arbennig o gadarnhaol ar bobl ifanc dros 18 oed, na fyddai angen iddynt brofi mwyach eu bod yn y categori angen blaenoriaethol o bobl ifanc 18-20 oed a oedd wedi derbyn gofal neu wedi cael eu maethu ar unrhyw adeg pan roeddent o dan 18 oed neu sy'n wynebu risg benodol o gamfanteisio rhywiol neu ariannol.

3.3. Mae'r Papur Gwyn hefyd yn amlinellu'r nod i ystyried ymhellach, drwy ymgynghori, a ddylai Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 gael ei diwygio er mwyn galluogi pobl ifanc 16-17 oed i fod yn ddeiliaid contract meddiannaeth, a fyddai'n ymestyn yr opsiynau llety sydd ar gael i'r grŵp hwn.

3.4. Nod y cynigion yw gwella cydweithio a chyfathrebu rhwng amrywiol wasanaethau'r sector cyhoeddus sy'n chwarae rôl ym mywydau pawb (gan gynnwys plant a phobl ifanc). Y nod yw gwneud digartrefedd yn gyfrifoldeb a rennir ymhlith y gwasanaethau cyhoeddus, a sicrhau bod mwy o ystyriaeth yn cael ei rhoi i daith bywyd ehangach unigolyn, er enghraifft, ysgolion a cholegau, iechyd meddwl a chorfforol a llesiant, profiad o ofal, camddefnyddio sylweddau, rhyngweithio â'r system cyfiawnder ieuenctid ac ati. Os byddai mwy o rannau o'r sector cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd, yna gall risgiau digartrefedd gael eu nodi'n gynharach.

3.5. Nod y cynigion yw rhoi mwy o eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am gefnogi plant a phobl ifanc, gyda'r nod y bydd llai o blant a phobl ifanc yn teimlo bod “brwydr” rhwng gwasanaethau ynghylch pa ran o'r gwasanaeth cyhoeddus sy'n gyfrifol amdanynt ac ar ba gam.

3.6. Nod y cynigion yw gwneud Gwasanaethau Tai yn fwy hygyrch i bawb, yn enwedig unigolion â nodweddion gwarchodedig fel pobl ifanc a phobl hŷn, LHDTC+, pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, pobl anabl ac ati. Mae dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn ac sy'n fwy ystyriol o drawma yn golygu bod yn rhaid symleiddio prosesau o fewn y system gyfan, cyfathrebu'n amlach a defnyddio iaith sy'n fwy dealladwy wrth gyfathrebu â phawb, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

3.7. Bydd y cynigion hefyd yn ystyried trefniadau dyrannu a safon tai a llety dros dro, gyda'r nod o symud tuag at broses o Ailgartrefu Cyflym i lety parhaol yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd eisoes. Y nod yn y fan hon yw cyflwyno system sy'n galluogi pobl i gael llety sefydlog yn gyflym a chyfyngu ar symudiadau aflonyddol ac arosiadau hir mewn llety dros dro.

4. Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc rydych wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant na phobl ifanc, esboniwch pam.[12]

4.1. Gwnaed ymdrech i wneud gwaith cyfranogol gyda phlant wrth ddatblygu'r polisi, mewn partneriaeth â Plant yng Nghymru. Yn anffodus, ni lwyddodd Plant yng Nghymru i nodi unrhyw un i gymryd rhan yn y gwaith. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr ymchwil i nodi opsiynau eraill er mwyn ymgymryd â gwaith ymgysylltu o'r fath drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

4.2. Mae'r holl waith ymchwil y cyfeiriwyd ato yma wedi cael ei ddefnyddio i lywio ein polisi mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, yn enwedig pobl ifanc 16 i 17 oed.

4.3. Nododd adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn 2018 fod bwlch mewn gwybodaeth am weithgareddau ataliol strwythurol. Mae angen mwy o waith ymchwil a gwaith datblygu cysyniadau i feithrin dealltwriaeth well o effeithiau unigryw mathau penodol o ymyriadau strwythurol (e.e., strategaethau lleihau tlodi a deddfwriaeth atal digartrefedd) ar bobl ifanc sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.

4.4. Fel rhan o weithgareddau ymgynghori'r Papur Gwyn, byddwn yn ystyried argymhelliad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru uchod fel rhan o'n gwaith i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Byddwn yn darparu rhagor o fanylion am y trefniadau a wnawn i weithio gyda'r carfanau hyn, gan gynnwys gweithio gyda'r tîm Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant i nodi partneriaid addas yn y Trydydd Sector y gallwn weithio gyda nhw, yn enwedig y rhai sy'n cefnogi'r carfanau hyn mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig.

5. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

5.1. Er mwyn lliniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol, byddwn yn adolygu'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac asesiadau effaith eraill drwy gydol ein gwaith yn ogystal ag unrhyw waith ymchwil newydd, fel ein bod bob amser yn ymwybodol o'r materion a'r heriau a allai godi mewn perthynas â

[12] Mae Erthygl 12 o CCUHP yn nodi bod gan blant hawl i fynegi eu barn, yn enwedig pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.

hawliau plant a phobl ifanc. Bydd hyn yn sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei wneud yn cydymffurfio â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 o safbwynt rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol.

5.2. Yn ogystal, mae'r Tîm Deddfwriaeth Atal Digartrefedd wedi drafftio Cofnod Risgiau a Materion a gaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd i ystyried risgiau newydd a all godi fel rhwystrau i waith neu o ganlyniad i waith sy'n mynd rhagddo. Mae hyn yn cynnwys amlinellu mesurau byrdymor a hirdymor i reoli neu liniaru risgiau ac effeithiau negyddol diwygiadau i ddeddfwriaeth.

Erthyglau neu Brotocolau Dewisol CCUHP	Yn gwella (X)	Yn herio (X)	Eglurhad
Erthygl 3 (lles pennaf y plentyn) Erthygl 9 (gwahanu wrth rieni) Erthygl 10 (ailuno teuluoedd) Erthygl 12 (parch tuag at farn y plentyn) Erthygl 18 (cyfrifoldebau rhiant a chymorth gan y wladwriaeth) Erthygl 19 (amddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod) Erthygl 20 (plant na allant fyw gyda'u teulu) Erthygl 23 (plant ag anabledd) Erthygl 24 (iechyd a gwasanaethau iechyd) Erthygl 34 (camfanteisio rhywiol) Erthygl 35 (cipio, gwerthu a masnachu) Erthygl 39 (ymadfer ar ôl trawma ac ailintegreiddio)	X		Mae gallu byw mewn cartref diogel a sefydlog yn ganolog i les pennaf a datblygiad pob plentyn a pherson ifanc. Nod y cynigion yw cyflwyno un dull system gyfan yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ystyriol o drawma i atal digartrefedd er mwyn ceisio gwella'r profiad o gael a chadw tai addas. Bydd creu'r dull hwn o leihau'r risg o ddigartrefedd yn rhoi amrywiaeth ehangach o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gydag amrywiaeth ehangach o bartneriaid gwasanaeth cyhoeddus i gyfleu eu hanghenion. Bydd cyflwyno prosesau symlach cysylltiedig sy'n gwella hygyrchedd gwasanaethau mewn ffordd fwy personol yn helpu plant a phobl ifanc i deimlo bod eu barn yn cael ei chymryd o ddifrif i raddau mwy o gymharu â'r system bresennol. Bwriad clir y cynigion yn y Papur yw bod pob un o Erthyglau'r Confensiwn y cyfeirir atynt yn cael eu bodloni o leiaf ac y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i brofi'r hawliau hynny.

6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

6.1. Caiff gwaith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ei gomisiynu drwy sefydliadau yn y Trydydd Sector. Caiff fersiynau addas i blant o'n gwaith eu llunio hefyd. Caiff unrhyw adroddiadau sy'n deillio o waith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a gwaith ymchwil sy'n cynnwys plant a phobl ifanc eu rhannu â nhw pan gânt eu cyhoeddi.

7. Monitro ac Adolygu

7.1. Mae'r Tîm Deddfwriaeth Atal Digartrefedd wedi drafftio cofnod risgiau a materion parhaus a gaiff ei ddiweddaru drwy gydol y gwaith a wneir. Bydd hyn yn llywio'r newidiadau y bydd angen i ni eu gwneud i'r prosiect neu ddogfennau'r prosiect er mwyn lliniaru risgiau. Yn ogystal â hyn, gall mwy o wybodaeth am brofiadau plant a phobl ifanc o ddigartrefedd a'r modd y bydd y cynigion yn effeithio arnynt ddod ar gael i ni yn ystod cyfnod y gwaith i gyflwyno'r Papur Gwyn, gan gynnwys y broses ymgynghori. Byddwn yn adolygu'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant er mwyn cynnwys unrhyw wybodaeth newydd neu newidiadau.

B. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifiwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

1.1. Mae digartrefedd yn fater cymhleth sydd â nifer o achosion a chanlyniadau. Nid yw'r rhai sy'n profi digartrefedd yn grŵp homogenaidd a bydd eu cefndiroedd a'u profiadau yn amrywio. Fodd bynnag, gwyddom fod y risg o ddigartrefedd yn gallu mynd yn uwch o ganlyniad i ffactorau allanol ehangach, gan gynnwys yr argyfwng costau byw presennol.

1.2. Gwyddom hefyd fod yr argyfwng costau byw yn debygol o gael effaith anghymesur a chronnol ar rai grwpiau gwarchodedig. Bydd y cynigion a amlinellir yn y Papur Gwyn yn hyrwyddo cydraddoldeb drwy wella mynediad at wasanaethau tai a mynd ati i liniaru gwahaniaethu ar unrhyw sail megis, rhyw, hil, lliw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, cysylltiad â lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall.

1.3. Mae'r Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru yn nodi amrywiaeth o gynigion ar gyfer newidiadau i bolisïau a'r gyfraith er mwyn sicrhau bod diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd. Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn seiliedig ar argymhellion a chyngor a roddwyd i Lywodraeth Cymru gan Banel Adolygu Arbenigol Annibynnol, a alwyd ynghyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd i adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol, a gwneud argymhellion penodol ar gyfer diwygiadau.

1.4. Mae'r panel wedi ystyried tystiolaeth gan bobl sydd â phrofiad uniongyrchol o ddigartrefedd ac arbenigwyr ar arferion, polisi ac ymchwil ym maes digartrefedd. Mae Cymorth Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, wedi gweithio gyda mwy na 300 o bobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd, gan gynnwys pobl sy'n byw mewn llety dros dro, pobl ifanc, pobl sy'n gadael gofal, goroeswyr camdriniaeth a phobl yn y carchar.

1.5. At hynny, er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei lywio gan leisiau a phrofiadau pobl â nodweddion gwarchodedig, comisiynwyd Tai Pawb i gyflawni gwaith ymgysylltu â ffocws gyda cheiswyr lloches, ffoaduriaid, pobl anabl, pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr, pobl hŷn a phobl LHDTC+.[13] Dylai adroddiad Tai Pawb ar '*The experiences of homelessness of people with protected characteristics in Wales*' (2023) gael ei ystyried ochr yn ochr â'r Asesiad o'r Effaith hwn.

1.6. Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn wedi'u gwreiddio yn y gwaith ymgysylltu hwn ac mae sawl un yn ymatebion uniongyrchol i safbwyntiau a phrofiadau'r unigolion rydym wedi gweithio gyda nhw.

[13] Experiences-of-homelessness-Final-Version-PDF.pdf (taipawb.org)

1.7. Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn yn parhau â'r newid sylweddol mewn arferion a gyflawnwyd mewn ymateb i bandemig y Coronafeirws ac yn cefnogi'r broses o gyflawni un neu fwy o'n hegwyddorion gwaith allweddol:

- Dylai digartrefedd fod yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd.
- Dylai'r gwasanaethau digartrefedd a ddarperir fod yn ystyriol o drawma a chanolbwyntio ar yr unigolyn.
- Dylai fod modd i'r rhai sy'n ddigartref gael eu cartrefu yn yr hirdymor yn gyflym, gan eu gwneud yn fwy hunangynhaliol a'u helpu i gadw eu cartrref (Ailgartrefu Cyflym).
- Mae holl wasanaeth cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am atal digartrefedd.

1.8. Mae'r egwyddorion eang hyn yn cefnogi system ddigartrefedd ddiwygiedig sydd â'r nod o ganolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cael ei harwain gan anghenion. Bydd dull gweithredu o'r fath yn sicrhau effeithiau cadarnhaol cyffredinol i unrhyw un sy'n gwneud cais am gymorth digartrefedd a thai gyda phwyslais penodol ar unigolion sy'n agored i niwed sy'n gysylltiedig ag anghenion cymorth nas diwallwyd. Dylai'r manteision hyn gynnwys:

Ymyrryd yn Gynharach ac atal

1.9. Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu nifer o ddiwygiadau arfaethedig, gan gynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth graidd ym maes digartrefedd a fydd yn rhoi mwy o bwyslais ar atal digartrefedd. Gan adeiladu ar y newid diwylliannol a ysgogir gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae'r diwygiadau yn anelu at gefnogi ymyrraeth gynharach gydag unigolion sy'n wynebu risg ac at fynd i'r afael ag amrywiaeth eang o achosion a chanlyniadau digartrefedd.

Dileu rhwystrau i bob ymgeisydd

1.10. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig newidiadau i'r system ddigartrefedd er mwyn cael gwared ar rai “profion” penodol sy'n pennu a oes ar awdurdod lleol ddyletswyddau penodol o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Mae'r profion hyn yn ymwneud â "angen blaenoriaethol” ac a oes rhywun yn “fwriadol ddigartref". Bydd diwygiadau yn cael eu gwneud hefyd i roi mwy o hyblygrwydd o ran y prawf sy'n penderfynu a oes gan rywun "gysylltiad lleol" â'r ardal lle mae'n gwneud cais. Nid yw'r profion hyn yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac maent wedi arwain at sefyllfa lle mae cymorth digartrefedd wedi cael ei wrthod i bobl sy'n agored i niwed, sydd wedi cyfrannu at gysgu allan. Mae ein cynigion i ddiwygio'r profion hyn yn ymateb yn uniongyrchol i adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, yn enwedig y rhai sydd wedi bod yn ddigartref ochr yn ochr â nodwedddion gwarchodedig. Os caiff cynigion i ddiddymu'r profion angen blaenoriaethol a bwriadoldeb eu datblygu'n ddeddfwriaeth yn y dyfodol, mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid hefyd ddileu'r ddyletswydd rhyddhad a ddarperir gan adran 73 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, gan na fydd y gwahaniaeth rhwng

pobl ag angen blaenoriaethol a phobl heb angen blaenoriaethol yn gyfredol mwyach.

Cyfrifoldeb ehangach

1.11. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylid cyflwyno dyletswyddau ar y gwasanaeth cyhoeddus ehangach; i nodi digartrefedd, i atgyfeirio unigolion at yr awdurdodau tai lleol ac i gydweithio. Bydd y dyletswyddau arfaethedig hyn yn nodi risgiau digartrefedd yn fwy effeithiol i bawb ond credwn y byddant yn cynnig manteision penodol i'r rhai y mae digartrefedd yn effeithio'n anghymesur arnynt a'r rhai sy'n cael profiad o fod yn ddigartref ochr yn ochr ag anghenion cymorth lluosog.

Mesurau atal wedi'u targedu

1.12. Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys sawl cynnig sydd â'r nod o liniaru'r risg anghymesur o ddigartrefedd a wynebir gan grwpiau penodol. Mae'r cynigion hyn wedi'u seilio'n gryf ar ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac adborth pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o ddigartrefedd, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig.

1.13. Nodwn isod ein hasesiad o dystiolaeth mewn perthynas â'r profiad o ddigartrefedd ochr yn ochr â'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, dylid nodi, drwy gydol y broses o ddatblygu'r Papur Gwyn, ein bod wedi sylwi ar broblemau o ran ansawdd data a thystiolaeth sy'n ymwneud â digartrefedd a nodweddion gwarchodedig ehangach a, bod ceisio gwelliannau yn hyn o beth yn un o gynigion y Papur Gwyn.

1.14. Drwy weithredu ar y cynigion a nodwyd yn y Papur Gwyn, y bwriad yw y bydd gwasanaethau tai a'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn gweithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol i fynd i'r afael â materion ac anghenion cymhleth sydd yn aml yn cynnig rhwystrau neu anawsterau megis iechyd cyffredinol ac iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, chwalu cydberthnasau teuluol a chydberthnasau â phartneriaid, profiadau o gam-drin domestig ac ati.

1.15. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn eang ac yn gymhleth ac maent yn rhan o strategaeth drawsnewid hirdymor i fynd i'r afael â'r pwysau yn y system dai. Bydd yn cymryd peth amser i roi'r diwygiadau ar waith a bydd angen i awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a phartneriaid ehangach gael amser i baratoi ar gyfer diwygiadau, gan gynnwys rhoi hyfforddiant, darparu TG a sefydlu prosesau a systemau.

1.16. Hefyd, cyfyd problemau sylweddol o ran y cyflenwad tai, na fydd y diwygiadau arfaethedig yn ymdrin â nhw. Mae llwyddiant y diwygiadau yn dibynnu ar gyflenwad cynyddol, ac, yn benodol datblygu llety ar gyfer grwpiau penodol, e.e. pobl sengl a theuluoedd mawr.

2. Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig:

Oedran

Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed

2.1. Canfu ymchwil ar sail y DU gyfan yn 2014 fod 20% o bobl ifanc 16-25 oed wedi cysgu ar soffa pobl eraill yn ystod y flwyddyn diwethaf, a bod 16% wedi gwneud hynny am fwy nag wythnos a bod 4% wedi gwneud hynny dros dri mis. Canfuwyd hefyd fod 26% wedi cysgu mewn mannau anniogel megis ceir, bysys nos neu ar y stryd. [14] Mae Centrepoint yn nodi bod 129,000 o bobl 16-24 oed yn ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd yn y DU yn 2021-2022.[15] Canfu Adroddiad 2014 Crisis, '*Nations apart? Experiences of single homelessness people across Great Britain'* fod digartrefedd fel arfer yn dechrau'n ifanc, gyda 50% o'r ymatebwyr yn mynd yn ddigartref am y tro cyntaf yn 20 oed neu'n iau. [16] Gadawodd 41% eu llety yn ystod eu profiad cyntaf o ddigartrefedd oherwydd anghydfod nad oedd yn dreisgar. Canfu hefyd fod 1 o bob 4 o bobl o dan 21 oed erioed wedi byw mewn tai parhaol. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi po gynharaf y daw rhywun yn ddigartref, y mwyaf tebygol y bydd yn mynd drwy bump o brofiadau neu fwy o fod yn ddigartref.

2.2. Yng Nghymru, yn 2021/22, cysylltodd 444 o bobl ifanc 16–17 oed a 5,519 o bobl ifanc 18-24 oed ag awdurdodau lleol i ofyn am gymorth. [17] Yng Nghymru, ym mis Mehefin 2023 roedd 3,346 o blant dibynnol o dan 16 oed mewn llety dros dro.[18]

2.3. Canfu adroddiad *Nations apart: Experiences of single homelessness people across Great Britai*n Crisis a Phrifysgol Caerdydd o bobl ddigartref sengl ym Mhrydain Fawr fod 24% o bobl ddigartref wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol. [19]

2.4. Canfu astudiaeth 2015 o Brofiadau Pobl Ddigartref Ifanc (SEYHoPe) fod 50% o bobl ifanc y cyfwelwyd â nhw yn teimlo eu bod wedi profi rhyw fath o gamdriniaeth. Roedd pobl ddigartref ifanc saith gwaith yn fwy tebygol o fod wedi profi cam-drin emosiynol a theirgwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael eu hesgeuluso.

---

[14] Cambridge Centre for Housing and Planning Research, Estimating the Scale of Youth Homelessness in the UK, Final Report, 2015.
[15] Cronfa Ddata Digartrefedd Ymhlith Pobl Ifanc | Centrepoint | Centrepoint
[16] crisis_nations_apart_2014.pdf
[17] Aelwydydd y rhoddwyd cymorth iddynt yn ôl canlyniad, oedran a rhywedd (llyw.cymru)
[18] Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan: Mehefin 2023 | LLYW.CYMRU
[19] crisis_nations_apart_2014.pdf

2.5. Roedd 32% wedi cael eu gwahardd gan o leiaf o un ysgol ac roedd 55% wedi cael eu gwahardd dros dro o'r ysgol o leiaf unwaith. Canfu hefyd fod tri o bob pump yn defnyddio un cyffur neu fwy ar y pryd. Roedd naw o bob 10 yn bodloni'r meini prawf ar gyfer o leiaf un anhwylder seiciatrig. Er gwaethaf hyn, dim ond 35% o bobl ifanc oedd yn defnyddio gwasanaethau. [20]

2.6. Mewn adroddiad diweddar a gomisiynwyd gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru tynnwyd sylw at y cysylltiad rhwng bod yn ddigartref a bod yn berson sy'n gadael gofal, a nodwyd bod un o bob pedwar person sy'n gadael gofal yn wynebu digartrefedd ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed (Comisiwn y Senedd, 2023, t.51). Nododd yr adroddiad ei bod yn bosibl bod awdurdodau lleol sy'n rhoi blaenoriaeth i gartrefu pobl â chysylltiad lleol yn cael effaith negyddol ar bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal sydd wedi symud o le i le, a hynny heb fod o'u gwirfodd. [21] Mae adroddiad End Youth Homelessness Cymru, *Don't Let Me Fall Through the Cracks*, hefyd yn nodi y gall cysylltiad lleol fod yn rhwystr am fod pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn datblygu cydberthnasau mewn awdurdodau lleol eraill, ond bod y rheolau ynglŷn â chysylltiad -lleol yn golygu na allant fyw mewn ardal sydd â'r cysylltiad personol hwnnw.

2.7. Mae'r adroddiad yn nodi, o'r 27 o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal y siaradwyd â nhw, fod 15 yn teimlo bod tor perthynas ag aelod o'r teulu neu rywun arall wedi cyfrannu at sefyllfa lle roeddent yn ddigartref fel person ifanc. Os nad oes modd cartrefu pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal mewn ardal o ganlyniad i gysylltiad lleol, gall hyn olygu na fydd ganddynt eu rhwydwaith cymorth o'u hamgylch. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi bod rhai pobl ifanc y siaradwyd â nhw yn credu y gallai byw gydag eraill a oedd yn rhannu eu profiad fod opsiwn cadarnhaol iddynt, ond cydnabuwyd na fyddai hyn yn gweithio i bawb o bosibl. [22] Mae'r dystiolaeth hon wedi llywio'n uniongyrchol ein cynigion i ychwanegu grwpiau eraill o bobl at y rhestr o'r rhai sydd wedi'u heithrio rhag y prawf cysylltiad lleol er mwyn caniatáu ar gyfer cysylltiadau nad ydynt yn rhai teuluol â chymunedau ac ar gyfer mesurau atal wedi'u targedu i liniaru risgiau digartrefedd i blant a phobl ifanc a phobl sydd â phrofiad o ofal.

2.8. Mae astudiaethau achos yn y *Study of the Experience of Young Homeless People* wedi nodi bod mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a defnyddio sylweddau yn ddigyswllt ac wedi awgrymu ei bod yn bwysig bod angen cymorth ychwanegol ar bobl ifanc o ran mynd i apwyntiadau er mwyn sicrhau cysondeb

[20] Llamau, Study of the Experiences of Young Homeless People, 2015.
[21]Comisiwn y Senedd (2023). *Os nad nawr, pryd?Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.* Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru. Ar gael yn: Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal (senedd.cymru). Cyrchwyd 15/09/2023
[22] Don't+Let+Me+Fall+Through+The+Cracks+-+Full+Report.pdf (squarespace.com)

triniaeth. [23] Mae tystiolaeth o'r fath yn cefnogi'r angen am ddull gweithredu cyfannol (un o egwyddorion ymarferol y diwygiadau) er mwyn sicrhau bod amrywiaeth eang o anghenion yn cael eu hasesu a'u diwallu drwy'r broses gwneud cais ar gyfer digartrefedd.

Poblogaeth oedran gweithio

2.9. Canfu adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru fod y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol o ddigartrefedd yn tueddu i fod yn iau, gyda'r lefelau uchaf o brofiadau uniongyrchol o ddigartrefedd ymhlith pobl 25-34 oed, ac yna bobl 35-44 oed. [24]

2.10. Er bod digartrefedd yn effeithio'n anghymesur ar bobl iau i bob golwg, gall pobl hŷn wynebu problemau iechyd penodol o ganlyniad i'w hoedran a all effeithio ar eu profiad o ddigartrefedd. Roedd pobl hŷn a gyfrannodd at ymchwil a wnaed gan Tai Pawb ar ran Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r asesiad effaith hwn, yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i eiddo addas gan y cyngor pan oeddent yn cysylltu â'r cyngor i gael cymorth. Roedd prinder llety a oedd yn addas at eu hanghenion yn golygu bod yn rhaid i rai ohonynt aros am gyfnodau hwy mewn llety anaddas neu lety dros dro. [25]

Poblogaeth oedrannus

2.11. Yn ôl data Cyfrifiad 2021 i Gymru, mae mwy o bobl nag erioed yn y grwpiau oedran hŷn. Mae 21.3% o'r boblogaeth yn 65 oed a hŷn (o gymharu â 18.4% yn 2011). [26] Mae'n bosibl y bydd ein poblogaeth sy'n heneiddio yn arwain at fwy o alw am wasanaethau digartrefedd i ddod o hyd i lety addas a hygyrch sy'n diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio yn y dyfodol.

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

2.12. Bydd y diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig a'r mesurau anneddfwriaethol yn mynd i'r afael â digartrefedd ymhlith ystod o oedrannau.

2.13. Y bwriad yw y bydd dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cynnwys dyletswyddau newydd i'r rhai sy'n gweithio yn y rhannau perthnasol o wasanaeth cyhoeddus Cymru er mwyn nodi ffactorau risg ar gyfer digartrefedd ac atgyfeirio person sydd â'r ffactorau risg hyn at awdurdod tai lleol gyda'i gytundeb ac ymestyn y cyrff y mae'r ddyletswydd i gydweithio yn gymwys iddynt.

[23] Llamau, Study of the Experiences of Young Homeless People, 2015.
[24] Iechyd Cyhoeddus Cymru, Iechyd unigolion sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd yng Nghymru, yn ystod y pandemig COVID-19
[25] Experiences-of-homelessness-Final-Version-PDF.pdf (taipawb.org)
[26] Amcangyfrifon o'r boblogaeth ac aelwydydd, Cymru -y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â materion a all arwain at ddigartrefedd o bosibl, megis gadael gofal, problemau o ran addysg, iechyd meddwl a/neu iechyd corfforol gwael, problemau mynediad sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig ac ati a rhoi'r cymorth priodol ar gyfer ymyriad ystyrlon i atal y risg o ddigartrefedd.

2.14. Mae'n bosibl bod cyfnodau mewn llety heb gymorth yn cael effeithiau niweidiol ar lesiant ac iechyd meddwl plant. Mae'r rhain yn cynnwys byw mewn amgylchedd nad oes ganddynt reolaeth drosto na theimlad o berchenogaeth ohono a lle nad oes digon o le a/neu ryddid i ddysgu, chwarae a datblygu. Er na fydd y Papur Gwyn hwn yn ymdrin â'r cyflenwad tai, mae'r cynigion ynglŷn â diwygio systemau, dyraniadau ac addasrwydd, ochr yn ochr â'r cynigion sydd wedi'u targedu at blant, yn anelu at fynd i'r afael â chanfyddiadau'r ymchwil sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod diffyg llety addas i oedrannau gwahanol yn broblem benodol sy'n effeithio ar bobl hŷn (Tai Pawb, 2023).[27] Ni fydd y diwygiadau arfaethedig yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â phroblemau o ran cyflenwad a bydd eu llwyddiant yn dibynnu ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymrwymiad cyfochrog i ddarparu 20,000 o gartrefi carbon isel i'w rhentu yn y sector cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r cynigion yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cofrestri tai hygyrch sydd â'r nod o sicrhau bod unigolion yn cael eu lleoli mewn llety addas yn fwy effeithlon.

2.15. Mae Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn cynorthwyo awdurdodau tai wrth iddynt asesu'r angen am dai lleol ledled Cymru. [28] Mae hefyd nifer o ofynion strategol eraill ar awdurdodau lleol ac eraill sy'n ymwneud â chynllunio, cyflenwad a stoc. Fel rhan o'r diwygiadau hyn cyfyd cyfle i sicrhau bod anghenion y boblogaeth ddigartref yn cael eu blaenoriaethu yn y gwaith cynllunio hwn.

[27] Experiences-of-homelessness-Final-Version-PDF.pdf (taipawb.org)
[28] Asesiad o'r farchnad dai leol: canllawiau i awdurdodau lleol yng Nghymru | LLYW.CYMRU

Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd[29] a'r ffordd y gallai eich cynnig achosi'n anfwriadol, neu y gallai gael ei ddefnyddio i ddileu'n rhagweithiol, y rhwystrau sy'n anablu pobl â gwahanol fathau o amhariad)

2.16. Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

2.17. Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 21.1% o bobl yn anabl yng Nghymru, sef canran uwch nag yn Lloegr, lle roedd 17.7% o bobl yn anabl.[30]

2.18. Prin yw'r dystiolaeth ynglŷn ag amhariadau corfforol a digartrefedd yng Nghymru, ond ceir tystiolaeth bod eich iechyd corfforol yn effeithio ar eich risg o ddigartrefedd. Nododd adroddiad gan Cymorth Cymru yn 2017, ymhlith ymatebwyr a oedd yn ddigartref, na allai 27% weithio oherwydd salwch neu anabledd hirdymor a bod 9% arall yn bwriadu chwilio am waith ond eu bod yn cael eu hatal rhag gwneud hynny oherwydd salwch neu anabledd dros dro. Mae adroddiad Cymorth Cymru hefyd yn nodi bod 33% o ymatebwyr yn teimlo bod problemau iechyd yn un o'r prif ffactorau, neu'n ffactor eilaidd, a achosodd eu digartrefedd.[31] At hynny, canfu gwerthusiad o wasanaeth Skylight Crisis fod 39% o'r aelodau wedi nodi salwch neu anabledd cyfyngol wrth gysylltu â Skylight Crisis am y tro cyntaf.[32]

2.19. Mae ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn awgrymu bod unigolion sydd â phrofiad uniongyrchol o ddigartrefedd hefyd yn fwy tebygol o yn ceisio rheoli nifer o gyflyrau iechyd hirdymor, gyda 13% o bobl yn wynebu digartrefedd ochr yn ochr â dau gydafiachedd neu fwy (o'u cymharu â 3% o grŵp cymharu'r boblogaeth gyffredinol) a 17% ag 1 cydafiachedd (o gymharu â 5% o grŵp cymharu'r boblogaeth gyffredinol).[33]

2.20. Roedd adroddiad 'Experiences of the Homelessness Reduction Act 2018-2021' Crisis yn 2022 yn canolbwyntio ar Loegr, ond mae'n cynnig cipolwg ar brofiadau pobl anabl o ddigartrefedd. Canfu'r adroddiad fod 22% o gyfranogwyr anabl yn teimlo bod eu hanghenion wedi cael eu diwallu drwy'r Opsiynau Tai, o gymharu â 38% o'r sampl ymchwil tai gyfan. Canfuwyd bod 57% o bobl ag

[29] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn cael eu hanablu gan amhariadau ond gan y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Y ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl yw drwy sicrhau mai dileu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, y bydd eich cynnig. Am ragor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwilio am 'model cymdeithasol'.
[30] Anabledd, Cymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[31] Cymorth_Cymru_Health_Matters_report.pdf (cymorthcymru.org.uk)
[32] Crisis Skylight: Crisis: Final Report of the University of York Evaluation (whiterose.ac.uk)
[33] Iechyd Cyhoeddus Cymru, Iechyd unigolion sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd yng Nghymru, yn ystod y pandemig COVID-19

anableddau dysgu yn cael gwybodaeth a chyngor i'w helpu gyda'u problem tai, o gymharu â 69% o'r rhai heb anabledd dysgu.[34]

2.21. Gall prosesau ymgeisio ar-lein fod yn anodd i rai pobl ag anableddau dysgu. Gwelir bod pobl anabl yn fwy tebygol o fod wedi'u hallgáu'n ddigidol, a allai fod o ganlyniad i ddiffyg hygyrchedd o ran technoleg, nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd, neu fod eu lefelau llythrennedd digidol yn isel.[35] Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Housing and Disabled People: Wales's hidden crisis' yn nodi bod llawer o bobl anabl yn ei chael hi'n anodd dilyn y prosesau a'r systemau i wneud cais am gartref hygyrch. Codwyd hefyd y ffaith ei bod yn gynyddol anodd cael gafael ar gyngor a gwybodaeth, yn enwedig i bobl sydd ag amhariad ar synhwyrau.

2.22. Ceir adroddiadau hefyd yn nodi bod prinder cartrefi hygyrch yn golygu bod pobl anabl yn wynebu rhestrau aros hwy a mwy o risg y bydd angen iddynt symud o'u hardal leol a'u rhwydweithiau cymorth er mwyn cael eu cartrefu. Mae pobl anabl yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn y DU, gyda bron un o bob pedwar (24.9%) o bobl anabl 16 i 64 oed yn rhentu tai cymdeithasol, o gymharu â llai nag un o bob 10 (7.9%) o bobl nad ydynt yn anabl yn 2021.[36] Fodd bynnag, yn ôl adroddiad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, mae pobl anabl yn tueddu i wynebu mwy o oedi cyn cael eu cartrefu mewn llety addas. [37]

2.23. Ar hyn o bryd, mae mwy o alw am dai cymdeithasol na'r cyflenwad. Gall hyn effeithio'n anghymesur ar ddigartrefedd pobl anabl a all fod mewn llety anaddas, gan gynnwys llety dros dro, wrth iddynt aros am eiddo addas. Gall hyn hefyd arwain at sefyllfa lle mae pobl yn derbyn eiddo anaddas am eu bod yn ystyried mai hwnnw yw'r opsiwn gorau o blith opsiynau prin. [38] Gallai hyn arwain at sefyllfa lle mae pobl anabl yn mynd yn ddigartref eto ac yn dychwelyd i'r system unwaith eto am nad yw'r eiddo yn addas ar gyfer eu hanghenion.

2.24. Un broblem arall yw'r prinder data sydd ar gael ar y mater hwn. Dim ond 15% o awdurdodau lleol yng Nghymru a ddywedodd fod y data y maent yn eu dal i ddeall anghenion pobl anabl o ran gofynion tai, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn dda (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018).[39] Nododd adroddiad Tai Pawb a oedd yn ystyried profiadau pobl â nodweddion gwarchodedig o ddigartrefedd yng Nghymru enghraifft lle roedd diffyg data

[34] hra.pdf (localgov.co.uk)
[35] housing-and-disabled-people-wales-hidden-crisis.pdf (equalityhumanrights.com)
[36] Canlyniadau i bobl anabl yn y DU – y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[37] housing-and-disabled-people-wales-hidden-crisis.pdf (equalityhumanrights.com)
[38] housing-and-disabled-people-wales-hidden-crisis.pdf (equalityhumanrights.com)
[39] Tudalen 29 research-report-115-housing-and-disabled-people-the-role-of-local-authorities.pdf (equalityhumanrights.com)

priodol ar eiddo yn golygu bod cartref wedi cael ei ddiystyru yn y gorffennol gan staff am ei fod yn anaddas er ei fod yn addas mewn gwirionedd.[40]

2.25. Nodwyd problemau o ran casglu data yn ymchwil Tai Pawb hefyd. Mae pobl anabl a gymerodd ran yn sôn am ddiffyg dealltwriaeth o amgylchiadau personol unigolion a'r ffaith nad yw ffurflenni na gwaith papur yn hygyrch. Nodwyd hefyd fod y rhai a gymerodd ran yn teimlo bod adroddiadau gan eu therapyddion galwedigaethol yn cael eu hanwybyddu (Tai Pawb 2023, t.14). Mae ymchwil arall yn nodi na fydd rhai pobl anabl o reidrwydd yn ystyried eu bod yn sâl neu fod ganddynt broblemau iechyd ac efallai na fyddant yn ymateb i gwestiynau 'meddygol' yn yr un ffordd ag eraill, sydd felly'n tanlinellu pwysigrwydd ystyried amgylchiadau unigol.[41]

2.26. Nododd y rhai a gymerodd ran yn ymchwil Tai Pawb hefyd nad oedd eu hamhariad yn cael ei flaenoriaethu wrth iddynt geisio cael gafael ar wasanaethau a'u bod yn teimlo y dylai fod wedi cael blaenoriaeth.[42]

2.27. Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi bod diffyg dealltwriaeth ynglŷn â'r gofynion ar gyfer mathau gwahanol o amhariad. Efallai y bydd pobl ag amhariad corfforol yn cael blaenoriaeth dros bobl ag anableddau dysgu neu bobl â chyflyrau iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae diffyg dealltwriaeth hefyd ynglŷn â'r hyn y mae hygyrchedd ffisegol yn ei olygu i bobl anabl, sy'n golygu y gallant gael cynnig eiddo anaddas.[43]

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

2.28. Neilltuodd y Panel Adolygu Arbenigol sesiwn benodol ar brofiad pobl anabl o ddigartrefedd a chynhaliodd Crisis Cymru sesiwn i randdeiliaid ar y mater hwn.

2.29. ystyried bod yr ymchwil yn awgrymu bod pobl anabl yn ei chael hi'n anodd defnyddio'r system ddigartrefedd, bydd y diwygiadau arfaethedig yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau digartrefedd a thai yn fwy hygyrch ac yn ystyried sut y gellir symleiddio'r prosesau presennol i'w gwneud yn haws defnyddio'r system. Bydd hyn yn cynnwys prosesau cyfathrebu mwy hygyrch ynglŷn â dyletswyddau hysbysu. Bydd gwaith ehangach ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru i gryfhau'r broses o roi'r model cymdeithasol o anabledd ar waith yn genedlaethol yng ngwasanaeth cyhoeddus Cymru yn cefnogi ein cynigion ymhellach.

[40] Tudalen 13 Experiences-of-homelessness-Final-Version-PDF.pdf (taipawb.org)
[41] Tai cymdeithasol hygyrch yng Ngwent (taipawb.org)
[42] Experiences-of-homelessness-Final-Version-PDF.pdf (taipawb.org)
[43] housing-and-disabled-people-britains-hidden-crisis-main-report_0.pdf (equalityhumanrights.com)

2.30. Bydd y diwygiadau yn ceisio ffurfioli dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth fynd i'r afael â digartrefedd ac un o fanteision hyn yw y bydd pobl anabl yn teimlo bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

2.31. Er na fydd y ddeddfwriaeth yn mynd i'r afael â chartrefi addas yn uniongyrchol ac mai cyfyngedig fydd ei heffaith ar amseroedd aros hir, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu 20,000 o gartrefi carbon isel i'w rhentu yn y sector cymdeithasol. Bydd Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol hefyd yn rhoi cymorth i awdurdodau lleol wrth iddynt asesu'r angen am dai lleol yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod anghenion pobl yng Nghymru, gan gynnwys pobl anabl, yn cael eu diwallu. Mae hefyd nifer o ofynion strategol eraill ar awdurdodau lleol ac eraill sy'n ymwneud â chynllunio, cyflenwad a stoc. Fel rhan o'r diwygiadau hyn cyfyd cyfle i sicrhau bod anghenion y boblogaeth ddigartref yn cael eu blaenoriaethu yn y gwaith cynllunio hwn.

2.32. Bydd y diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig yn darparu ar gyfer Cofrestri Tai Hygyrch i helpu i gryfhau gwybodaeth leol am stoc hygyrch a'i hargaeledd er mwyn gwella opsiynau tai i bobl anabl.

2.33. Mae'n rhaid i'r gwaith ar y diwygiadau ystyried a all deddfwriaeth chwarae rôl i wella'r ffordd y caiff data eu casglu ac ansawdd data mewn perthynas â digartrefedd a sut maen'n croestorri â nodweddion gwarchodedig er mwyn sicrhau ein bod yn gwybod mwy am effaith digartrefedd a'r profiad ohono ac effaith y system, e.e. profiad pobl anabl mewn llety dros dro.

Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

2.34. Er y defnyddir y term LHDTC+ yma fel term cyffredinol yn unol â chynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru a data gan sefydliadau yn y trydydd sector, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd yn ddwy nodwedd wahanol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a bod rhai grwpiau o bobl sy'n rhannu'r naill neu'r llall neu'r ddwy nodwedd warchodedig hyn weithiau yn LHDTC+ neu'n uniaethu'n LHDTC+.

2.35. Mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru yn defnyddio'r term LHDTC+ i gyfeirio at *bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol/traws, pobl gwiar a phobl sy'n cwestiynu*.*Gellir ychwanegu llythrennau at yr acronym i gynnwys grwpiau, cyfeiriadeddau a hunaniaethau eraill megis Rh (rhyngryw) ac A (arywiol/aramantaidd). Defnyddir yr arwydd + yn yr acronym fel llaw fer i gynnwys a chydnabod termau amrywiol eraill y mae pobl yn uniaethu â nhw ac yn eu defnyddio i ddisgrifio eu hunaniaethau a'u cyfeiriadeddau, gan gynnwys*

pobl ryngryw, arywiol ac aramantaidd" (Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru 2023, tudalen 60).

2.36. Yn ôl Stonewall, mae un o bob pedwar unigolyn trawsryweddol (25%) wedi bod yn ddigartref ar ryw adeg neu'i gilydd yn eu bywyd.[44] Hefyd, yn 2017, gwahaniaethwyd yn erbyn un o bob pedwar (25%) unigolyn trawsryweddol ac un o bob pump (20%) unigolyn anneuaidd wrth chwilio am dŷ neu fflat i'w r(h)entu neu ei brynu/phrynu.
2.37. Mae tystiolaeth yn adroddiad Stonewall, *'LGBT in Britain',* a gyhoeddwyd yn 2018 hefyd yn awgrymu bod pobl drawsryweddol yn wynebu risg uchel o gam-drin domestig, gydag un o bob pump unigolyn trawsryweddol ac un o bob pum unigolyn anneuaidd yn wynebu cam-drin domestig (achos posibl digartrefedd) gan bartner.[45] Gall y sefyllfa hon gael ei gwaethygu os nad oes ganddynt rwydwaith cymorth teuluol, os ydynt yn wynebu gwahaniaethu gan eu teulu ac os nad ydynt yn cael cymorth cymdeithasol ehangach. Yn adroddiad *'LGBT in Britain: Home and communities'* nodir bod "more than a third of transgender people (36%) have experienced discrimination or poor treatment in their local LGBT community for being trans" (Stonewall, 2018, t.14).

2.38. Mae'n bosibl y bydd ofn gwahaniaethu gan wasanaethau digartrefedd yn achos pryder i bobl drawsryweddol wrth ddefnyddio gwasanaethau. Mae adroddiad y Ganolfan Effaith Digartrefedd yn 2022 yn nodi bod pobl drawsryweddol yn sôn am gamryweddu a 'marw-enwi' (defnyddio enw geni neu gyn-enw person trawsryweddol neu anneuaidd heb gydsyniad) wrth ddefnyddio gwasanaethau.[46] Gall hyn achosi i bobl fod yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau a gall hefyd olygu na fydd pobl am ddatgelu eu hunaniaeth rhywedd i wasanaethau. Yn ôl ymchwil yng Ngwent, dim ond traean o'r rhai a gymerodd ran a oedd wedi cael eu holi am eu hunaniaeth rhywedd wrth ddefnyddio gwasanaethau tai a phan ofynnwyd iddynt roi'r wybodaeth hon roedd hynny ar adegau gwahanol yn y system ac nad oedd yn cael ei chofnodi'n gywir bob tro. Nododd unigolyn a gymerodd ran, pan oedd gwybodaeth yn cael ei chasglu, ei bod yn anghywir a'i fod wedi cael ei gamryweddu.[47]

[44] lgbt_in_britain_-_trans_report_final.pdf (stonewall.org.uk)
[45] lgbt_in_britain_home_and_communities.pdf (stonewall.org.uk)
[46] Centre for Homelessness Impact, Sexuality, gender identity and homelessness Incidence, experience and evidence of homelessness among LGBTQ+ people, 2022
[47] Tudalen 33 Experiences of homelessness Final Version PDF.pdf

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

2.39. Mae'n ymddangos bod risg gynyddol o ddigartrefedd ymhlith unigolion trawsryweddol. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn anelu at roi cymorth ychwanegol i bobl sy'n drawsryweddol ac sydd wedi colli eu cartref, yn enwedig gan yr ymddengys fod y dystiolaeth yn awgrymu bod risgiau penodol yn gysylltiedig â bod yn drawsryweddol ac yn ddigartref. Mewn ymateb uniongyrchol i adborth a roddwyd gan bobl ifanc sy'n LHDTC+, rydym wedi gwneud cynigion i ychwanegu grwpiau eraill o bobl at y rhestr o esemptiadau ar gyfer y prawf cysylltiad lleol er mwyn darparu ar gyfer cysylltiadau nad ydynt yn rhai teuluol â chymunedau ac ystyried yn well y rhesymau pam na all rhywun ddychwelyd i'w awdurdod gwreiddiol.
2.40. Roedd y cynigion ehangach yn ymwneud â phrosesau cyfathrebu hygyrch a bydd cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn fanteisiol i'r rhai sy'n drawsryweddol.

2.41. Drwy gydol y cyfnod ymgynghori, rydym yn awyddus i gasglu sylwadau ychwanegol gan randdeiliaid ynglŷn â sut y gellid gwella dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddiogelu pobl sy'n drawsryweddol ac yn ddigartref.

Beichiogrwydd a mamolaeth

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

2.42. Canfu arolwg a gynhaliwyd gan Dispatches Channel 4 ar y cyd â Choleg Brenhinol y Bydwragedd yn 2019 fod 99.7% o'r bydwragedd a gymerodd ran wedi gweld merch feichiog a oedd wedi bod yn ddigartref yn y chwe mis blaenorol. Roedd 97% wedi gweld o leiaf un ferch feichiog mewn llety gorlawn neu anaddas ac roedd 97% wedi gweld o leiaf un ferch feichiog a oedd yn cysgu a soffa rhywun arall. [48] Gall wynebu'r risg o ddigartrefedd neu fod yn ddigartref yn ystod beichiogrwydd achosi straen, a thrawma o bosibl a bydd yn debygol o gael effeithiau ehangach ar iechyd a llesiant. [49] Gall bod yn ddigartref hefyd effeithio ar allu unigolyn i gael gofal ôl-enedigol ac ymweliadau gan fydwraig/ymwelydd iechyd ar ôl rhoi genedigaeth. Pe bai'n cael erthyliad neu'n camesgor, gall y profiad o ddigartrefedd effeithio ar y cyfnod adfer a chodi risgiau iechyd ychwanegol.

[48] Canfu Dispatches a Choleg Brenhinol y Bydwragedd fod 99.7% o fydwragedd wedi gweld mamau a oedd yn ddigartref dros y chwe mis diwethaf.
[49] Barriers and facilitators perceived by women while homeless and pregnant in accessing antenatal and or postnatal healthcare: A qualitative evidence synthesis - McGeough - 2020 - Health & Social Care in the Community - Llyfrgell Ar-lein Wiley

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

2.43. Bydd y diwygiadau arfaethedig yn ystyried rôl y gwasanaeth cyhoeddus ehangach mewn perthynas â digartrefedd. Bydd ymyriad cynnar yn un o nodau allweddol hyn ac mae'r ddyletswydd newydd arfaethedig i adnabod ac atgyfeirio yn ogystal â'r ddyletswydd estynedig arfaethedig i gydweithio yn cynnig manteision i bobl feichiog sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu sy'n ddigartref. Mae beichiogrwydd yn gategori angen blaenoriaethol ar hyn o bryd ac rydym yn awyddus drwy gydol y cyfnod ymgynghori sydd i ddod i asesu unrhyw risgiau i bobl feichiog sy'n dod i'r golwg drwy ein diwygiadau arfaethedig i ddileu'r prawf hwn a lliniaru'r rhain. Nid yw'n fwriad polisi gennym fod unrhyw grŵp yn teimlo ei fod yn cael ei ddadflaenoriaethu drwy ddiddymu angen blaenoriaethol ac ni chredwn y bydd hyn yn digwydd yn ymarferol.

Hil

2.44. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod rhai grwpiau ethnig lleiafrifol yn fwy tebygol o brofi digartrefedd cudd nag eraill ac felly efallai nad ydynt yn cael eu cynnwys mewn ystadegau am eu bod yn fwy tebygol o aros gyda ffrindiau neu eu bod yn llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau digartrefedd. [50]

Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol

2.45. Er mai cyfyngedig yw'r ymchwil i ddigartrefedd ymhlith pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, mae rhywfaint o dystiolaeth bod pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn wynebu lefelau anghymesur o ddigartrefedd yn y DU. [51] Canfuwyd bod aelwydydd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol deirgwaith yn fwy tebygol o fynd yn ddigartref na'r boblogaeth Wyn fwyafrifol. Mae gwahaniaethau hefyd rhwng grwpiau ethnig. Yng Nghymru, roedd pobl ddu yn cyfrif am 3.1% o ymgeiswyr digartref yn 2021, ond maent yn cyfrif am lai na 0.7% o boblogaeth Cymru yn 2016. Roedd pobl Asiaidd yn cyfrif am 2.4% o ymgeiswyr digartref yn 2021, ond 2% o'r boblogaeth yn 2016. Roedd y grŵp Cymysg yn cyfrif am 1.4% o ymgeiswyr digartref yn 2021, ond 0.8% o'r boblogaeth yn 2016. Roedd y grŵp “arall” yn cyfrif am 5.1% o ymgeiswyr digartref yn 2021, ond dim ond 0.7% o'r boblogaeth yn 2016. Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu, er bod cyfran y poblogaethau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru yn gymharol isel, fod canran yr ymgeiswyr digartref ymhlith y poblogaethau hynny yn uchel. [52] Canfuwyd bod tor perthynas, cam-drin domestig, gorlenwi a phroblemau ariannol

[50] "Hidden" homelessness in the UK: evidence review – y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[51] Tudalen 6 Homelessness_Amongst_Black_and_Minoritised_Ethnic_Communities_State_of_the_Nation_Report_2.pdf (hw.ac.uk)
[52] Tudalen 22 Homelessness_Amongst_Black_and_Minoritised_Ethnic_Communities_State_of_the_Nation_Report_2.pdf (hw.ac.uk)

yn ffactorau a oedd yn cyfrannu at ddigartrefedd mewn cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.[53]

2.46. Mae aelwydydd sydd â phenteulu Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn wynebu risg uwch o orlenwi o gymharu ag aelwydydd â phenteulu Gwyn. Canfuwyd bod aelwydydd â phenteulu Du chwe gwaith yn fwy tebygol a bod aelwydydd â phenteulu Pacistanaidd a Bangladeshaidd 10 gwaith yn fwy tebygol o fyw o dan amodau gorlawn.[54] Canfuwyd bod digartrefedd a phroblemau tai difrifol eraill megis gorlenwi yn fwy tebygol o effeithio ar bobl Bacistanaidd a Bangladeshaidd na grwpiau eraill. [55] Mae gwaith dadansoddi ar sail y Cyfrifiad hefyd yn awgrymu lefelau sefydlog ac uchel o oedolion yn rhannu ymhlith grwpiau Indiaidd, yn ogystal â grwpiau De Asiaidd eraill yng Nghymru a Lloegr, a all gynyddu'r galw am dai mwy o faint.

2.47. Nid yw'n glir a yw profiadau o wahaniaethu yn cynyddu'r risg o ddigartrefedd neu a yw pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n ddigartref yn wynebu risg uwch o wahaniaethu. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod profiadau o wahaniaethu ar sail hil neu ethnigrwydd yn gysylltiedig â risgiau uwch o ddigartrefedd i bob golwg a bod traean (32%) o bobl Ddu sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd wedi nodi bod landlord wedi gwahaniaethu yn eu herbyn. [56]

2.48. Mae ymchwil a wnaed ar drigolion ym Mryste yn awgrymu bod cymhlethdodau ynglŷn â'r Credyd Cynhwysol a systemau tai cymdeithasol, ynghyd â hiliaeth, yn creu amgylchedd lle y gall mathau cudd o ddigartrefedd megis cysgu ar soffa rhywun arall ymddangos yn opsiwn mwy dichonadwy i rai pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn hytrach na cheisio cymorth gan awdurdodau lleol neu landlordiaid cymdeithasol. [57]

2.49. Mae diffyg cyswllt rhwng anghenion tai pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a diffyg ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chrefyddol, rhwystrau iaith, hiliaeth strwythurol/sefydliadol. Gall hefyd fod yn wir bod pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig

[53] Tudalen 8 Homelessness_Amongst_Black_and_Minoritised_Ethnic_Communities_State_of_the_Nation_Report_2.pdf (hw.ac.uk)
[54] Tudalen 17 Homelessness_Amongst_Black_and_Minoritised_Ethnic_Communities_State_of_the_Nation_Report_2.pdf (hw.ac.uk)
[55] Tudalen 9 Homelessness_Amongst_Black_and_Minoritised_Ethnic_Communities_State_of_the_Nation_Report_2.pdf (hw.ac.uk)
[56] Tudalen 7 Homelessness_Amongst_Black_and_Minoritised_Ethnic_Communities_State_of_the_Nation_Report_2.pdf (hw.ac.uk)
[57] Housing_Report_2020.pdf (squarespace.com)

Leiafrifol yn deall llai am y systemau tai yng Nghymru a Lloegr neu'u cymheiriaid Gwyn.[58]

2.50. Dywedwyd bod aelwydydd Bangladeshaidd a Phacistanaidd ddwywaith a hanner yn fwy tebygol o brofi anfantais ym maes tai. Roedd y rhai a ddaeth i Brydain rhwng 2007 a 2011 25% yn fwy tebygol o brofi anfantais ym maes tai na'r rhai a anwyd yn y DU neu a oedd yn ddeiliaid pasbort y DU ac roedd deiliaid pasbortau eraill 15% yn fwy tebygol o brofi anfantais.[59]

Sipsiwn, Roma a Theithwyr

2.51. Canfu ymchwiliad diweddar gan y Senedd fod prinder llety addas ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, ochr yn ochr â phroblemau cyffredinol ynglŷn â chynnal a chadw ac atgyweirio safleoedd. Mae'r adroddiad yn nodi problemau gyda gorlenwi a darpariaeth annigonol o doiledau a chawodydd.[60]

2.52. Mae adroddiad y Senedd hefyd yn nodi cynnydd sylweddol yn nifer y galwadau ffôn gan unigolion sy'n byw ar leiniau eu ffrindiau a'u teuluoedd o dan amodau gorlawn, sydd wedyn am fod yn rhan o'r system ddigartrefedd yn swyddogol a chael llety mewn hosteli.[61] Canfu'r adroddiad Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Tai a Llety, yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011, fod 28.7% o Sipsiwn neu Deithwyr yn byw mewn aelwydydd gorlawn, o gymharu â 3.9% ar gyfer y grŵp lleiaf mewn darpariaeth tai gorlawn yng Nghymru.[62]

2.53. Mae rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod cam-drin domestig yn broblem sylweddol yn y gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Canfu un astudiaeth fod tua 60% - 80% o fenywod o gymunedau Teithwyr yn wynebu cam-drin domestig yn ystod eu bywyd.[63] Ceir tystiolaeth hefyd fod cam-drin yn un o achosion digartrefedd, yn enwedig ymhlith menywod.[64] Trafodir hyn ymhellach o dan y pennawd ‘Rhyw/Rhywedd’.

2.54. Mae astudiaethau achos yn adroddiad Tai Pawb yn dangos bod prinder llety addas (parhaol a dros dro) yn effeithio ar bobl sy'n wynebu digartrefedd ac sy'n dod o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Ymhlith yr heriau mae prinder tai mwy o faint a diffyg llety sy'n ddiwylliannol briodol. Mae'r bobl a gyfrannodd at yr

---

58 Homelessness_Amongst_Black_and_Minoritised_Ethnic_Communities_State_of_the_Nation_Report_2.pdf (hw.ac.uk)
59 Slippery discrimination: a review of the drivers of migrant and minority housing disadvantage (st-andrews.ac.uk)
60 Darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr (senedd.cymru)
61 Tudalen 12 Darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr (senedd.cymru)
62 Tudalen 7 Gwella-Cydraddoldeb-Hiliol-ym-maes-Tai-a-Llety.pdf(wcpp.org.uk)
63 Gypsies and Travellers - First Light
64 crisis_nations_apart_2014.pdf

astudiaethau achos hefyd yn nodi ymdeimlad o gael eu barnu ac nad oeddent yn cael eu trin yn deg.[65]

Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid

2.55. Ceir tystiolaeth sylweddol bod rhai grwpiau o fudwyr sy'n agored i niwed, yn enwedig y rhai heb hawl i gyllid cyhoeddus, yn wynebu risg fawr o ddigartrefedd a bod yn anghenus.[66]

2.56. Bu cynnydd sydyn yn nifer y rhai sy'n cael eu lletya gan y Swyddfa Gartref mewn llety adran 98 (lleoliadau byrdymor mewn gwestai wrth aros am lety gwasgaru), gyda mwy na 10,000 o bobl mewn llety adran 98 ar ddiwedd mis Mehefin 2021.[67] Mae Homeless Link yn nodi y gall cael statws ffoadur arwain at fwy o risg o ddigartrefedd. Weithiau mae pobl yn gorfod gadael eu llety gwasgaru heb fawr ddim rhybudd ac mae'n bosibl eu bod yn ymdopi â thrawma, yn ogystal â cheisio ymdopi â gwlad newydd.[68] Mae'n bosibl na fydd gan geiswyr lloches na ffoaduriaid fawr ddim rhwydweithiau cymorth yng Nghymru, os o gwbwl. Gall hyn olygu y gallent wynebu digartrefedd ar ei waethaf ac na fyddant yn cael eu cefnogi. Mae'n bosibl hefyd na fyddant yn siŵr sut i ddefnyddio gwasanaethau digartrefedd ac yn ofni cysylltu â gwasanaethau oherwydd ofn gwahaniaethu.

2.57. Mae'n bosibl bod pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus yn wynebu risg o ddigartrefedd ar ei waethaf gan nad ydynt yn gymwys i gael cymorth digartrefedd na chymorth tai. Nododd awdurdodau lleol yn Lloegr eu bod, erbyn canol mis Mai 2020, wedi derbyn 2,500 o bobl nad oeddent yn gymwys i gael cymorth digartrefedd statudol (hynny yw, oherwydd eu statws mewnfudo).[69]

2.58. Mae ymchwil Cyngor ar Bopeth yn dweud bod 48% o bobl heb hawl i gyllid cyhoeddus yn dweud eu bod yn byw mewn llety gorlawn a bod 18% wedi cael profiad o ddigartrefedd neu ddiffyg sicrwydd tai.[70]

2.59. Mae'r astudiaethau achos yn adroddiad Tai Pawb sy'n ystyried profiadau pobl â nodweddion gwarchodedig o ddigartrefedd yn nodi bod nifer o'r rhai a gymerodd ran yn teimlo mai'r ffaith bod cymorth i geiswyr lloches yn dod i ben o fewn 28 diwrnod i roi statws ffoadur yn un o brif achosion digartrefedd. Soniwyd hefyd fod ansawdd a'r cyflenwad o lety priodol hefyd yn broblem. Soniwyd hefyd am drawma o brofiadau blaenorol, ochr yn ochr â gwrthdaro â staff. Roedd yr

[65] Experiences of homelessness Final Version PDF.pdf
[66] Bramley, G, Fitzpatrick, S, McIntyre, J a Johnsen, S, 2022, t.19.
[67] Preventing homelessness amongst new refugees | Homeless Link
[68] Preventing homelessness amongst new refugees | Homeless Link
[69] Tudalen 25 Investigation into the housing of rough sleepers during the COVID-19 pandemic (nao.org.uk)
[70] No Recourse to Public Funds - Cyngor ar Bopeth

anallu i weithio yn golygu nad oedd pobl yn teimlo eu bod yn dod yn rhan o'r gymuned ac nid oeddent yn gallu cael llety yn y sector rhentu preifat oherwydd eu sefyllfa ariannol. Roedd y rhai a gymerodd ran yn teimlo bod diffyg dealltwriaeth ynglŷn â'r system ac roedd rhai yn ofni cysylltu â'r awdurdodau i gael cymorth rhag ofn y byddent yn cael eu hallgludo. Roedd rhwystrau ieithyddol hefyd.[71]

2.60. Mae ymatebwyr i waith Tai Pawb yn nodi bod angen cysgu ar loriau ffrindiau, defnyddio llety brys neu gysgu allan. Teimlai un unigolyn fod ei fywyd ar stop am fod y broses loches a'r cyfnodau o ddigartrefedd o bryd i'w gilydd wedi bod yn mynd ymlaen ers dros 10 mlynedd. Teimlai unigolyn arall ei fod yn cael ei anwybyddu pan gysylltodd ag Opsiynau Tai oherwydd yr oedi mawr. Teimlai nad oedd ei anghenion iechyd yn cael eu hystyried gan Opsiynau Tai. Roedd hefyd yn wynebu anawsterau pan wrthodwyd rhoi lle iddo mewn llety brys am nad oedd ganddo gyfrif banc ac nad oedd yn gallu hawlio budd-daliadau a gwrthododd y llety brys roi lle iddo am na allai ei ariannu.[72]

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol

2.61. Mae ein polisi mwy cyffredinol yn anelu at greu system ddigartrefedd sy'n hygyrch ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn a fydd yn cynnig manteision i gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yr ymddengys bod digartrefedd yn effeithio'n anghymesur arnynt. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn dibynnu ar greu mwy o gyflenwad o lety sy'n addas ar gyfer anghenion ystod o wahanol ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r nodwedd warchodedig hon gan fod y dystiolaeth yn awgrymu bod pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn wynebu mwy o risg o ddigartrefedd, yn enwedig digartrefedd cudd (e.e. gorlenwi). Bydd angen eiddo mwy o faint er mwyn darparu llety sy'n ddiwylliannol briodol. Mae rhaid i lety o'r fath hefyd fod yn ddiwylliannol briodol; mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gan rai pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol amheuon ynglŷn â chael eu cartrefu mewn ardaloedd penodol am eu bod yn teimlo bod risg uwch o hiliaeth mewn rhai ardaloedd. Er na fydd y diwygiadau arfaethedig yn mynd i'r afael yn uniongyrchol ag argaeledd cartrefi addas, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu 20,000 o gartrefi carbon isel i'w rhentu yn y sector cymdeithasol. Bydd Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol hefyd yn rhoi cymorth i awdurdodau lleol wrth iddynt asesu'r angen am dai lleol yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod anghenion pobl yng Nghymru yn cael eu diwallu. Mae ein cynigion sy'n ymwneud ag addasrwydd yn ceisio rhoi diwedd ar gartrefu yn yr hirdymor o dan amodau gorlawn.

[71] Experiences of homelessness Final Version PDF.pdf
[72] Experiences of homelessness Final Version PDF.pdf

2.62. Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi profi cymhlethdodau o ran y systemau, yn enwedig systemau tai cymdeithasol, a all arwain at sefyllfa lle nad yw pobl yn defnyddio gwasanaethau cymorth. Bydd y diwygiadau arfaethedig yn ystyried sut y gallwn wneud systemau tai a digartrefedd yn fwy hygyrch er mwyn sicrhau bod pobl yn deall y systemau ac yn teimlo eu bod yn gallu cysylltu â nhw a'u defnyddio.

2.63. Mae tystiolaeth yn dangos bod hiliaeth yn cael effaith ar ddigartrefedd. Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cynnwys camau gweithredu â'r nod o wneud sefydliadau yn fwy cynrychioliadol o'r bobl y maent yn eu gwasanaethu. Bydd llwyddiant Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r diwygiadau arfaethedig yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol i'r grwpiau hyn.

Sipsiwn a Theithwyr

2.64. Mae'n hollbwysig, wrth ystyried digartrefedd ac anghenion tai, ein bod yn ymwybodol o anghenion y rhai y mae llety brics a morter yn wrthun iddynt. Mae ein cynigion ynglŷn ag esemptiadau ar gyfer cysylltiadau nad ydynt yn rhai teuluol â chymunedau mewn perthynas â chysylltiad lleol yn cynnig manteision i'r grŵp hwn ochr yn ochr â'n cynigion penodol ynglŷn â llety diwylliannol briodol. Mae'r cynigion hyn yn ymateb yn uniongyrchol i adborth a roddwyd yn ystod gwaith y Panel Adolygu Arbenigol ar brofiad Sipsiwn a Theithwyr o ddigartrefedd.

Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid

2.65. Mae materion mewnfudo wedi'u cadw'n ôl i Lywodraeth y DU ond byddwn yn gweithio gyda swyddogion mewn adrannau perthnasol i ystyried opsiynau sy'n atal digartrefedd ymhlith y grŵp hwn. Fel y nodwn yn y Papur Gwyn, credwn y byddai'n werthfawr iawn adolygu'r weithdrefn bresennol o ran yr hysbysiad dod i ben o fewn 28 diwrnod, sy'n codi dro ar ôl tro yn y llenyddiaeth a thrwy ein gwaith ymgysylltu ein hunain. Rydym hefyd yn ystyried opsiynau polisi ehangach sy'n gysylltiedig â chyllid a hyfforddiant er mwyn cryfhau cymorth i'r grŵp hwn sy'n agored i niwed yng Nghymru.

Crefydd a chred a diffyg cred

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

2.66. Cyfyngedig yw'r data ar grefydd, cred a diffyg cred a sut mae hyn yn ymwneud â digartrefedd. Fodd bynnag, mae'n bosibl na all pobl sy'n ddigartref arddel eu crefydd neu eu harferion diwylliannol os nad ydynt mewn llety, neu os nad ydynt mewn llety addas (e.e. lle mae digon o le i weddïo). Os bydd rhywun wedi cysylltu â gwasanaethau tai neu ddigartrefedd mae'n bosibl ei fod yn

pryderu am wahaniaethau oherwydd eu credoau. Mae'n bosibl y bydd gan rywun sy'n ddigartref ofynion hefyd ynglŷn â ble mae wedi'i gartrefu (dros dro neu'n barhaol) oherwydd yr angen i fod yn agos i adeiladau o bwys iddynt neu fod â chysylltiadau trafnidiaeth â nhw (e.e. eglwysi, mosgiau). Mae'n bosibl hefyd y bydd pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu sy'n ddigartref am aros mewn ardaloedd penodol er mwyn bod yn agos i rwydweithiau cymorth yn eu cymunedau crefyddol neu ffydd. [73]

2.67. Canfu Cyfrifiad 2021 fod aelwydydd lle roedd pob aelod yn ystyried ei hun yn “Fwslimaidd” bron bedair gwaith yn fwy tebygol o fod mewn llety gorlawn o gymharu â'r holl aelwydydd yng Nghymru.[74] Mae'n bosibl y dylanwedir ar raddau meddiannaeth yn ôl proffiliau oedran gwahanol grwpiau crefyddol. Canfu dadansoddiad SYG (Crefydd yn ôl oedran a rhyw, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021) fod gan bobl a oedd yn dweud eu bod yn "Fwslimiaid" yr oedran cyfartalog ieuengaf, sef 27 oed, ac roedd gan bobl a oedd yn dweud eu bod yn "Gristnogion" yr oedran cyfartalog hynaf, sef 51 oed.[75]

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

2.68. Gan fod pobl sy'n ddigartref yn arddel gwahanol grefyddau neu gredoau, bydd angen cyflenwad addas o lety mewn ardaloedd gwahanol (e.e. rhai sy'n agos i fosgiau, synagogau, eglwysi ac ati). Er na fydd y ddeddfwriaeth yn mynd i'r afael yn uniongyrchol ag argaeledd cartrefi addas, rydym wedi ymrwymo i ddarparu 20,000 o gartrefi carbon isel i'w rhentu yn y sector cymdeithasol. Bydd Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol hefyd yn rhoi cymorth i awdurdodau lleol wrth iddynt asesu'r angen am dai lleol yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod anghenion pobl yng Nghymru yn cael eu diwallu.

2.69. Hefyd, cynigir y dylid ychwanegu grwpiau eraill o bobl at y rhestr o esemptiadau o dan y prawf cysylltiad lleol er mwyn darparu ar gyfer cysylltiadau nad ydynt yn rhai teuluol â chymunedau ac ystyried yn well y rhesymau pam na all rhywun ddychwelyd i'w awdurdod lleol gwreiddiol.

2.70. Oherwydd y canfyddiad posibl o wahaniaethu y gall pobl ei ofni wrth gysylltu â gwasanaethau, mae'n bwysicach nag erioed bod y dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sydd wrth wraidd y weledigaeth ar gyfer y diwygiadau arfaethedig yn cael ei hwyluso.

[73] People, Place & Policy Online: Issue 1: The Margins of Public Space - Muslims and Social Housing in England (shu.ac.uk)
[74] Crefydd yn ôl tai, iechyd, cyflogaeth, ac addysg, Cymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[75] Crefydd yn ôl oedran a rhyw, Cymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau (ons.gov.uk)

Rhyw

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

Dynion

2.71. Mae data gan SYG yn dangos mai dynion sengl rhwng 24-49 oed sy'n cyfrif am y grŵp mwyaf o bobl sy'n wynebu digartrefedd ac yn ceisio cymorth. [76] Mae'r adroddiad *Nations Apart* gan Crisis wedi canfod mai dynion yw'r rhan fwyaf o bobl ddigartref sengl, sy'n cyfrif am 83% o'r garfan hon. Canfu ei astudiaeth fod y mwyafrif o bobl ddigartref sengl yn ddynion sengl ifanc ag anghenion cymorth lluosog. [77] Mae ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi hyn. Canfu fod unigolion sydd â phrofiad uniongyrchol o ddigartrefedd yn tueddu i fod yn ddynion iau. [78] Mae profiad dynion sengl yn waeth eto oherwydd y prinder parhaol o lety i bobl sengl yng Nghymru.

Menywod

2.72. Mae *Women and Homelessness: Putting Gender back on the Agenda* yn tynnu sylw at ymchwil sy'n dangos bod y menywod digartref a gymerodd ran yn chwilio am leoedd a oedd yn llai amlwg am resymau diogelwch, megis toiledau cyhoeddus neu garejis.[79] Mae ymddygiad o'r fath yn golygu bod digartrefedd ymhlith menywod yn llai gweladwy o'u cymharu â dynion, ac mae'n bosibl bod y duedd i gysgu ar soffa rhywun arall, aros gyda theulu a ffrindiau neu mewn llety lloches, sy'n fwy cyffredin o bosibl ymhlith menywod, yn cynyddu hyn eto. [80] Hefyd, er mai dynion 24-49 oed yw'r grŵp mwyaf o bobl sy'n wynebu digartrefedd ac yn ceisio cymorth yn ôl data SYG, nododd y data hyn hefyd, ymhlith rhieni sengl, mai menywod sy'n cyfrif am y mwyafrif o'r ymgeiswyr.[81]

2.73. Canfu ymchwil a wnaed gan Crisis rhwng mis Mehefin 2010 a mis Ionawr 2011 fod 28% o fenywod digartref wedi treulio'r noson gyda rhywun er mwyn cael llety, o gymharu â 14% o ddynion. Canfuwyd hefyd fod 19% o fenywod wedi cymryd rhan mewn gwaith rhyw (o gymharu â 3% o ddynion) am fod hyn yn cynnig cyfle i dreulio'r noson gyda chleient.[82]

2.74. Ceir cysylltiadau rhwng trais a digartrefedd ymhlith menywod ac mae profiadau digartrefedd yn aml yn cael eu llywio gan drais ar sail rhywedd.[83] Yn ôl

[76] Digartrefedd yn y DU - y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[77] Crisis, Nations Apart? Experiences of single homeless people across GB, 2014
[78] Iechyd Cyhoeddus Cymru, Iechyd unigolion sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd yng Nghymru, yn ystod y pandemig COVID-19
[79] Tudalen 168 women-homelessness-putting-gender-on-the-agenda.pdf (shu.ac.uk)
[80] Tudalen 2 Myth_Busting_cVUs0i9.pdf (kxcdn.com)
[81] Digartrefedd yn y DU - y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[82] Tudalen 48 the_hidden_truth_about_homelessness.pdf (crisis.org.uk)
[83] Tudalen 5 61017dbd205aeb5f3bdd366b_CFHI_WOMEN_REPORT_V03.pdf (website-files.com)

yr ystadegau mae menywod yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig na dynion. Amcangyfrifodd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr fod 6.9% o fenywod a 3% o ddynion 16 oed a hŷn wedi profi cam-drin domestig yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022.[84] Canfu adroddiad *Nations Apart* gan Crisis yn 2014 fod 61% o fenywod a ymatebodd a oedd yn profi digartrefedd wedi wynebu trais/camdriniaeth gan bartner. Canfuwyd hefyd fod 38% o fenywod yn wynebu risg y byddai rhywun arall yn gofalu am eu plant, o gymharu â 9% o ddynion.[85] Gall hyn fod yn gysylltiedig â'r ffaith mai menywod yn bennaf yw'r ymgeiswyr sy'n rhieni sengl gan eu bod yn ei chael hi'n anodd o bosibl i gael cymorth a llety addas i'w plant neu lai o gyfleoedd i rannu cyfrifoldebau rhiant.[86]

2.75. Mae ymchwil Tai Pawb yn nodi astudiaeth achos lle roedd menyw ddigartref a oedd wedi dioddef cam-drin domestig yn wynebu'r risg o golli ei phlant pe bai'n derbyn cynnig o lety brys.[87] Mae adroddiad Tai Pawb yn sôn bod menywod yn wynebu heriau o ran cartrefi diogel a dywedodd un o'r rhai a gymerodd ran y dylai gwasanaethau fod yn fwy ystyriol o anghenion tai menywod sydd wedi dioddef cam-drin domestig neu drais. Roedd un arall wedi cael ei threisio cyn cael llety mewn tŷ amlfeddianaeth gyda chwech o ddynion a oedd yn golygu ei bod yn treulio ddiwrnodau wedi'i chloi yn ei hystafell oherwydd ofn a thrawma ond roedd yn dal i aros am lety addas.[88] Canfu ymchwil gan Crisis a wnaed yn 2016, o blith y 72 o fenywod a gwblhaodd ei arolwg, fod 31% wedi bod yn destun ymosodiad rhywiol, ymyrraeth neu ymosodiad tra oeddent yn ddigartref.[89]

2.76. Canfuwyd bod argaeledd llety priodol i fenywod wedi cael effaith ar fenywod sy'n profi digartrefedd. Mae astudiaethau achos yn adroddiad y Ganolfan Effaith Digartrefedd yn nodi bod menywod sydd wedi cael eu cam-drin yn teimlo'n anniogel mewn hosteli cymysg i ddynion a menywod ac y gall hyn olygu eu bod yn dewis cysgu allan. Nododd yr adroddiad hefyd y gall menywod sy'n dianc rhag trais ac sy'n cael eu cartrefu y tu allan i'w hardal leol a'u rhwydwaith cymorth deimlo'n ynysig a diymgeledd o ganlyniad i hynny. Gall hyn hefyd arwain at sefyllfa lle mae pobl yn gwrthod cynigion anaddas ac yn mynd yn ddigartref oherwydd prinder opsiynau adddas.[90]

---

[84] Trosolwg o gam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[85] Crisis, Nations Apart? Experiences of single homeless people across GB, 2014
[86] Digartrefedd yn y DU - y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[87] Tudalen 17 Experiences-of-homelessness-Final-Version-PDF.pdf (taipawb.org)
[88] Experiences-of-homelessness-Final-Version-PDF.pdf (taipawb.org)
[89] Research reveals extent of sexual violence against female rough sleepers – womensgrid
[90] Tudalen 22-23 61017dbd205aeb5f3bdd366b_CFHI_WOMEN_REPORT_V03.pdf (website-files.com)

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

2.77. Mae dynion yn fwy tebygol o brofi digartrefedd acíwt; yn enwedig digartrefedd ar y stryd na menywod. Nod ein cynigion yw ceisio cryfhau gweithgarwch atal a sicrhau bod y system yn hygyrch. Credwn y bydd ein cynigion i ddiddymu angen blaenoriaethol, yn benodol, yn arwain at effeithiau cadarnhaol i ddynion sengl nad ydynt wedi cael cymaint o fudd o ddeddfwriaeth 2014 ag roeddem wedi gobeithio.

2.78. gymharu â hynny, gall menywod wynebu digartrefedd mwy cudd ei natur (ond cyfyngedig yw'r data yn y maes hwn) a wynebu profiad croestoriadol peryglus o risg o ddigartrefedd a thrais ar sail rhywedd. Mae ymchwil Tai Pawb yn tynnu sylw at yr angen am ymyriadau cynharach a datrysiadau llety mwy cynaliadwy. Roedd yr oedi cyn cael llety yn broblem a nodwyd yn yr astudiaeth achos o fenywod yn adroddiad Tai Pawb. Ni fydd y diwygiadau arfaethedig yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â phroblemau o ran cyflenwad a bydd eu llwyddiant yn dibynnu ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymrwymiad cyfochrog i ddarparu 20,000 o gartrefi carbon isel i'w rhentu yn y sector cymdeithasol. Fodd bynnag, bydd ein cynigion ynglŷn ag atal, addasrwydd a dileu'r “profion” cyfredol sy'n pennu pa ddyletswyddau sy'n ddyledus gan awdurdod lleol o dan y ddeddfwriaeth bresennol (h.y. “angen blaenoriaethol”) yn lliniaru'r effeithiau a ddisgrifir uchod.

2.79. At hynny, bydd ein cynigion ynglŷn â goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn arwain at effeithiau cadarnhaol i bob un sy'n dioddef y math hwn o gamdriniaeth, menywod yn bennaf, ac yn creu system fwy hygyrch.

Cyfeiriadedd rhywiol

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

2.80. Er y defnyddir y term LHDTC+ yma fel term cyffredinol yn unol â chynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru a data gan sefydliadau yn y trydydd sector, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd yn ddwy nodwedd wahanol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a bod rhai grwpiau o bobl sy'n rhannu'r naill neu'r llall neu'r ddwy nodwedd warchodedig hyn weithiau yn LHDTC+ neu'n uniaethu'n LHDTC+.

2.81. Mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru yn defnyddio'r term LHDTC+ i gyfeirio at *bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol, drawsryweddol/draws, pobl gwiar a phobl sy’n cwestiynu*.*Gellir ychwanegu llythrennau at yr acronym i gynnwys grwpiau, cyfeiriadeddau a hunaniaethau eraill megis Rh (rhyngryw) ac A*

(arywiol/aramantaidd). Defnyddir yr arwydd + yn yr acronym fel llaw fer i gynnwys a chydnabod termau amrywiol eraill y mae pobl yn uniaethu â nhw ac yn eu defnyddio i ddisgrifio eu hunaniaethau a'u cyfeiriadeddau, gan gynnwys pobl ryngryw, arywiol ac aramantaidd" (Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru 2023, tudalen 60).

2.82. Mae'n heriol asesu'r profiad llawn o ddigartrefedd ymhlith pobl LHDTC+ gan nad yw data ar gyfeiriadedd rhywiol pobl yn cael eu casglu fel mater o drefn gan wasanaethau. Hefyd, mae'n bosibl y bydd rhai unigolion yn teimlo'n anghyfforddus yn datgan eu cyfeiriadedd rhywiol ac yn pryderu am wahaniaethu.[91] Canfu ymchwil yng Ngwent mai dim ond 8% o'r rhai a gymerodd ran oedd yn sicr eu bod wedi cael eu holi am eu cyfeiriadedd rhywiol wrth ofyn am gymorth.[92]

2.83. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ymchwil yn awgrymu bod cyfeiriadedd rhywiol yn effeithio ar y tebygolrwydd o brofi digartrefedd. Mae Stonewall yn awgrymu bod bron un o bob pum unigolyn LHDTC+ (18 y cant) wedi bod yn ddigartrefedd ar ryw adeg neu'i gilydd yn eu bywyd.[93]

2.84. Mae adroddiad Tai Pawb yn 2023 ar brofiadau'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig yn nodi y gall pobl LHDTC+ ddatblygu cysylltiadau cryf â theuluoedd a ganfuwyd / a ddewiswyd. Cydberthnasau a ystyrir weithiau'n rhai sy'n cynnig math pwysicach o gymorth na pherthnasau drwy waed yw teuluoedd a ganfuwyd / a ddewiswyd oherwydd gall pobl LHDTC+ deimlo eu bod yn gallu bod yn nhw eu hunain a theimlo eu bod wedi'u derbyn yn well gan eu teulu a ganfuwyd / a ddewiswyd. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig os bydd unigolyn yn wynebu gwahaniaethu yn y cartref o ganlyniad i'w cyfeiriadedd rhywiol a gallant ddewis neu gael eu gorfodi i symud i ffwrdd o'r ardal. Yna, gall yr unigolyn ddatblygu teulu a ganfuwyd / a ddewiswyd ond os bydd yr unigolyn yn wynebu digartrefedd, efallai na fydd y cydberthnasau hyn yn cael eu hystyried yn gydradd â'u cydberthnasau â pherthnasau drwy waed o dan y prawf cysylltiad lleol.[94]

2.85. Mae ymchwil Gwent yn nodi mai cymysg fu profiadau pobl LHDTC+ o lety dros dro. Dywedodd un o'r rhai a gymerodd ran y gallai diffyg llety arwain at ddigartrefedd sy'n ailddigwydd a/neu ddigartrefedd cudd.[95]

[91] Centre for Homelessness Impact, Sexuality, gender identity and homelessness Incidence, experience and evidence of homelessness among LGBTQ+ people, 2022
[92] Experiences of homelessness Final Version PDF.pdf
[93] LGBTQ+ facts and figures | Stonewall
[94] Tudalen 35 Experiences-of-homelessness-Final-Version-PDF.pdf (taipawb.org)
[95] Tudalen 33 Experiences-of-homelessness-Final-Version-PDF.pdf (taipawb.org)

2.86. Mae 24% o bobl ifanc sy'n ddigartref yn uniaethu'n LHDTC+ ac ymddengys fod croestoriadedd rhwng cyfeiriadedd rhywiol, digartrefedd a bod yn berson ifanc. [96] Gall hyn fod o ganlyniad i wahaniaethu gan deuluoedd pobl LHDTC+ a'u penderfyniad felly i adael y cartref teuluol yn gynt nag y byddent wedi ei wneud pe na baent yn wynebu gwahaniaethu.

2.87. Canfu Ymddiriedolaeth Albert Kennedy fod 77% o bobl ifanc yn credu bod eu hunaniaeth rhyw / rhywedd yn ffactor a barodd iddynt gael eu gwrthod yn eu cartref.[97] Canfu Ymddiriedolaeth Albert Kennedy hefyd fod 61% o bobl ifanc LHDTC+ yn teimlo ofn neu fygythiad o du aelodau o'u teulu cyn iddynt fynd yn ddigartref.[98] Mae ymchwil yng Ngwent yn nodi nad yw cyfryngu teuluol yn gweithio bob amser o dan amgylchiadau o'r fath.[99]

2.88. Mae pobl ifanc sy'n LHDTC+ ac yn ddigartref yn fwy tebygol o brofi trais wedi'i dargedu, camfanteisio rhywiol, camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd corfforol ac iechyd meddwl na phobl ifanc ddigartref eraill.[100] Teimlai 17% o bobl ifanc LHDTC+ eu bod wedi gorfod cael rhyw heb fod mewn perthynas er mwyn dod o hyd i rywle i aros tra oeddent yn ddigartref.[101]

2.89. Gall digartrefedd hefyd effeithio ar bobl LHDTC+ hŷn. Ers y pandemig, mae Stonewall Housing wedi gweld cynnydd o 70% yn nifer y bobl 50 oed neu'n hŷn sy'n defnyddio ei wasanaethau.[102] [103] Mae Stonewall yn nodi bod profiadau pobl LHDTC+ hŷn yn wahanol i bobl hŷn nad ydynt yn LHDTC+ yn y ffyrdd canlynol: landlordiaid homoffobig, aflonyddu gan gymdogion a mwy o unigrwydd. Os bydd pobl LHDTC+ hŷn yn ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd, mae'n bosibl na allant ddibynnu ar rwydweithiau teuluol am gymorth ac mae'n bosibl hefyd y byddant yn wynebu mwy o risg o ddigartrefedd os ydynt yn wynebu gwahaniaethu gan landlordiaid neu gymdogion. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen eu cartrefu mewn ardal benodol a ystyrir yn fwy cyfeillgar i bobl LHDTC+ a lle mae llai o risg o wahaniaethu. Gall hyn arwain at dreulio mwy o amser mewn llety dros dro tra byddant yn aros i le yn eu hardal eu hunain ddod ar gael. Gallant hefyd wynebu problemau tebyg o ran cysylltiad lleol ac am eu bod yn hŷn, mae'n bosibl eu bod wedi datblygu cydberthnasau hyd yn oed yn gryfach â theuluoedd a ganfuwyd neu a ddewiswyd.

---

[96] Centre for Homelessness Impact, Sexuality, gender identity and homelessness Incidence, experience and evidence of homelessness among LGBTQ+ people, 2022
[97] The Albert Kennedy Trust, LGBT YOUTH HOMELESSNESS: A UK NATIONAL SCOPING OF CAUSE, PREVALENCE, RESPONSE, AND OUTCOME
[98] NEW: The LGBTQ+ Youth Homelessness Report | akt
[99] Experiences of homelessness Final Version PDF.pdf
[100] Download.ashx (akt.org.uk)
[101] NEW: The LGBTQ+ Youth Homelessness Report | akt
[102] Mae Stonewall Housing yn darparu cymorth tai ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol, draws a chwiar (LHDTC+) yn y DU.
[103] Why LGBTQ+ people over 50 who experience homelessness need our focus too | Homeless Link

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

2.90. Bydd y diwygiadau arfaethedig yn ystyried sut y gellir mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth ddarparu gwasanaethau. Nod y cam gweithredu hwn yw sicrhau bod gwasanaethau i bobl sy'n LHDTC+ yn fwy hygyrch. Hefyd, wrth fabwysiadu dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma, bydd hynny'n helpu i fynd i'r afael â'r problemau y mae pobl LHDTC+ yn eu hwynebu wrth deimlo eu bod yn cael eu profi ar lefel eu hangen neu nad ydynt yn cael eu deall oherwydd gwahaniaethau mewn ffordd o fyw/diwylliant. Bydd hyn hefyd yn fuddiol i'r rhai sydd wedi cael profiadau trawmatig yn sgil tor perthynas yn y teulu a/neu tra oeddent yn ddigartref ac sy'n wynebu risg bosibl y caiff trawma yn y gorffennol ei atgyfnerthu wrth iddynt gysylltu â gwasanaethau cymorth ac adrodd eu hanes.

2.91. Mewn achosion lle mae cydberthnasau â'r teulu wedi torri, mae'n bosibl y bydd pobl LHDTC+ yn meithrin cyfeillgarwch sy'n debyg i deulu neu grwpiau cymorth yn eu cymuned. Mae'r diwygiad arfaethedig wedi ystyried y prawf cysylltiad lleol er mwyn sicrhau nad yw hyn achosi i'r grŵp hwn fod o dan anfantais a bod gwahanol fathau o rwydweithiau cymorth/cysylltiadau lleol yn cael eu hystyried.

Priodas a phartneriaeth sifil

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

2.92. Ym Mhrydain Fawr, mae oedolion sengl yn cyfrif am tua dwy ran o dair o'r bobl sydd â hawl i gael rhyw fath o gymorth digartrefedd perthnasol gan awdurdodau lleol, ac mae unig rieni yn cyfrif am fwyafrif helaeth o'r lleill.[104] Roedd dros 60% o geisiadau digartrefedd rhwng 2020-2021 yng Nghymru wedi cael eu gwneud gan oedolion sengl.[105] Fodd bynnag, os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil ac yn ddigartref, mae'n bosibl y bydd eich sefyllfa fyw yn gosod straen ychwanegol ar eich perthynas.

[104] Tudalen 57 the-homelessness-monitor-great-britain-2022_full-report_final.pdf (crisis.org.uk)
[105] Tudalen 58 the-homelessness-monitor-great-britain-2022_full-report_final.pdf (crisis.org.uk)

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

2.93. Fel rhan o'r diwygiadau arfaethedig, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau tai yn hygyrch i bawb, gan gynnwys y rhai sy'n briod neu sydd mewn partneriaeth sifil. Byddwn yn ceisio sicrhau bod pobl sy'n ddigartref ac yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn cael llety addas a bod cartrefi addas yn cael eu dyrannu drwy'r prosesau dyrannu.

Grwpiau a all fod yn agored i niwed sy'n rhannu nodweddion nad ydynt wedi'u diogelu'n ffurfiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Aelwydydd incwm isel

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

2.94. Mae'r adroddiad *Homelessness and Poverty: reviewing the links* (2014) yn nodi bod pobl ddigartref yn dioddef o incwm isel parhaus.[106] Mae'r adroddiad *Homelessness Monitor: Great Britain 2022* yn cydnabod, wrth i incymau gwario ostwng (drwy'r argyfwng costau byw), y bydd yn fwy anodd i aelwydydd incwm is allu talu am fwyd, ynni, a hanfodion eraill, sy'n achos pryder cyffredin ynglŷn â lefelau uwch o dlodi ledled y DU, sef un o'r ffactorau risg allweddol o ran digartrefedd.[107]

2.95. Canfu adroddiad *Nations Apart* gan Crisis yn 2014 fod 64% o'r ymatebwyr a oedd wedi wynebu digartrefedd wedi bod yn ddi-waith.[108]

2.96. Gwnaeth Crisis ymchwil a oedd yn ystyried arolwg ar-lein o 2,000 o bobl, a oedd yn gynrychioliadol yn genedlaethol o aelwydydd incwm isel ym Mhrydain Fawr (y rhai ag incwm yn y 40% isaf o holl incymau aelwydydd, a addaswyd yn ôl maint yr aelwydd a'i chyfansoddiad). Canfu fod bron un o bob pedwar deiliad tŷ (23%) ar incwm isel wedi profi digartrefedd yn y gorffennol. Dywedodd un o bob 11 o aelwydydd incwm isel (9%) ei bod yn debygol y byddent yn wynebu cael eu troi allan yn ystod y gaeaf sydd i ddod, a allai arwain at ddigartrefedd o bosibl. Cynhaliwyd cyfweliadau ansoddol â 40 o bobl a oedd wedi bod yn ddigartref neu wedi wynebu risg o ddigartrefedd yn ystod 2022. Mae canfyddiadau'r ymchwil yn awgrymu bod y rhai mewn llety dros dro yn pryderu am eu costau byw unwaith eu bod yn gadael eu llety dros dro. Penderfynodd un o'r rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil roi'r gorau i ymgynnig am eiddo oherwydd pryderon ynglŷn â'i allu i'w wresogi.[109]

[106] Homelessness_Poverty_FullReport.pdf (hw.ac.uk)
[107] the-homelessness-monitor-great-britain-2022_full-report_final.pdf (crisis.org.uk)
[108] Crisis, Nations Apart? Experiences of single homeless people across GB, 2014
[109] experiences-of-homelessness-during-a-cost-of-living-crisis_full-report.pdf

2.97. Nodwyd heriau o ran llety dros dro yn yr ymchwil, gyda phobl yn nodi bod yn rhaid iddynt dalu am gyfleusterau storio ar gyfer eu heiddo, dibynnu ar gludfwyd neu brydau parod a oedd yn fwy costus na choginio, talu am olchi eu dillad oherwydd diffyg cyfleusterau golchi dillad a wynebu costau teithio uchel o ganlyniad i leoliad eu llety. [110]

2.98. Canfuwyd hefyd yn yr ymchwil, i lawer o bobl, fod costau byw yn un o sawl math o bwysau a oedd wedi cyfrannu at sefyllfa lle roeddent wedi colli eu cartref. Gwelwyd hefyd achosion o ddigartrefedd a oedd wedi cael eu hysgogi gan ffactorau lle na fyddai cysylltiad amlwg ag arian, e.e. tor perthynas.[111] Fodd bynnag, gellid ystyried straen ariannol yn ffactor sy'n cyfrannu at brif ysgogwyr digartrefedd, megis tor perthynas. Mae adborth seiliedig ar ymarfer yn awgrymu y bydd rhai grwpiau gwarchodedig yn teimlo'r pwysau hyn yn anghymesur ac yn gronnol.

2.99. Mae canfyddiadau'r ymchwil yn awgrymu bod pobl ag incwm isel yn gwneud ymdrech fawr i osgoi digartrefedd, gyda 23% yn colli prydau bwyd dros y 12 mis blaenorol er mwyn arbed arian a 29% yn dweud ei bod yn debygol y byddai angen iddynt golli prydau bwyd er mwyn talu eu costau tai dros y gaeaf i ddod (2022). Mae'r ffigur hwn yn cynyddu i 43% ymhlith deiliaid tai â phlant.[112]

2.100. Dywedodd llawer o gyfweleion na allent fforddio rhenti yn y sector rhentu preifat a dywedodd pobl mai prin oedd eu hincwm gwario neu gynilion ar gyfer costau newydd, gan gynnwys adneuon ac weithiau lle roedd angen talu mis o rent ymlaen llaw hefyd.[113] Yn yr adroddiad '*Evidencing the link between the Local Housing Allowance freeze and Homelessness*', nodir bod cysylltiad pendant rhwng y cynnydd yn nifer yr aelwydydd sydd â bwlch rhwng eu rhent a'u Lwfans Tai Lleol a nifer uwch o aelwydydd mewn llety dros dro. Amcangyfrifir, ar gyfer pob 1,000 o aelwydydd sy'n wynebu diffyg rhwng cyfradd eu Lwfans Tai Lleol a'u rhent, y bydd angen llety dros dro ar 44 ohonynt.[114] Gall anallu i ddod o hyd i dai addas sy'n fforddiadwy beri i ddigartrefedd barhau yn ogystal â'i achosi.[115]

2.101. Mae '*The Homelessness Monitor: Great Britain*' (Crisis, 2022) yn ystyried y digartrefedd craidd a ragamcanir yn ôl categori ym Mhrydain Fawr, 2012-2041 a chanfu mai cysgu ar soffa rhywun arall fyddai'r cynnydd mwyaf i'w weld mewn

[110] experiences-of-homelessness-during-a-cost-of-living-crisis_full-report.pdf
[111] experiences-of-homelessness-during-a-cost-of-living-crisis_full-report.pdf
[112] experiences-of-homelessness-during-a-cost-of-living-crisis_full-report.pdf
[113] Tudalen 13 experiences-of-homelessness-during-a-cost-of-living-crisis_full-report.pdf
[114] Tudalen 9 Microsoft Word - Evidencing the link between the LHA freeze and homelessness-Full report-pub5Feb20.docx (local.gov.uk)
[115] Housing models and access | Crisis UK

niferoedd absoliwt. Mae'n awgrymu bod ysgogwyr cynnydd o'r fath yn cynnwys lleihad yn nifer y rhai mewn cyflogaeth, cynnydd yn nifer y rhai sy'n ddi-waith a newidiadau mewn incwm, tlodi, prisiau tai a rhenti, a chyfraddau gosod cymdeithasol is disgwyliedig yn ogystal â diwedd ar y moratoriwm ar droi allan yn y sector rhentu preifat.[116]

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

2.102. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cysylltiad rhwng incwm isel a digartrefedd a nodwn fod angen i'r ystyriaeth o'r hyn sy'n gwneud llety yn addas gynnwys asesiad o fforddiadwyedd. Bydd ein cynigion ynglŷn â diwygiadau craidd a mesurau atal cryfach yn helpu i liniaru effeithiau, ond mae ein cynigion yn dibynnu ar lwyddiant mesurau polisi ehangach, yn enwedig diwygiadau i'r system budd-daliadau, gan gynnwys cynnydd yn y Lwfans Tai Lleol. Caiff ein cynigion eu cefnogi hefyd gan y gwaith ar wahân sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar ddigonolrwydd a fforddiadwyedd tai.

Pobl sy'n gadael y carchar

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

2.103. Mae adroddiad *Nations Apart* Crisis yn nodi bod 57% o bobl ddigartref yng Nghymru a arolygwyd wedi bwrw dedfryd yn y carchar. [117] O edrych ar y DU, roedd 43% o ddynion digartref wedi bwrw dedfryd yn y carchar, ac roedd 28% o fenywod digartref wedi bwrw dedfryd yn y carchar. Roedd 30% o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a arolygwyd wedi bwrw dedfryd yn y carchar, o gymharu â 46% ar gyfer Prydeinig Gwyn a 9% ar gyfer Gwyn Arall. [118] Roedd mwy na chwarter yr ymatebwyr wedi cyflawni trosedd er mwyn cael llety.[119]

2.104. Yn 2021, nododd y Weinyddiaeth Gyfiawnder fod 15% o bobl yn y carchar yng Nghymru a Lloegr wedi bod yn ddigartref cyn mynd i'r carchar. [120] Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn nodi bod y rhai sy'n gadael y carchar 50% yn fwy tebygol o aildroseddu os cânt eu rhyddhau i ddigartrefedd.[121] Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021, cafodd mwy na hanner y rhai a oedd yn gadael y carchar eu rhyddhau heb lety sefydlog a chafodd 3,194 o bobl yng Nghymru a Lloegr eu rhyddhau i ddigartrefedd.[122]

[116] Tudalen 78 the-homelessness-monitor-great-britain-2022_full-report_final.pdf (crisis.org.uk)
[117] Crisis, Nations Apart? Experiences of single homeless people across GB, 2014
[118] Crisis, Nations Apart? Experiences of single homeless people across GB, 2014
[119] Crisis, Nations Apart? Experiences of single homeless people across GB, 2014
[120] Nacro, Is the Government's rough sleeping target on track? The criminal justice perspective, 2023
[121] £70 million to keep prison leavers off the streets and cut crime - GOV.UK (www.gov.uk)
[122] Thousands of prisoners released homeless during pandemic, data shows (swlondoner.co.uk)

2.105. Roedd pobl wyn yn cyfrif am hyd at 72% o'r boblogaeth yn y carchar, roedd pobl Ddu yn cyfrif am 13% ac roedd grwpiau Asiaidd, Cymysg neu Ethnig Leiafrifol Eraill yn cyfrif am 15% o'r holl garcharorion yng Nghymru a Lloegr ar 31 Mawrth 2022. [123] Yn ôl Cyfrifiad 2021 mae 82% o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr yn Wyn. Pobl o grwpiau ethnig Asiaidd sy'n cyfrif am y ganran fwyaf ond un o'r boblogaeth (9.3%), ac yna grwpiau Du (4%), Cymysg (2.9%) a grwpiau ethnig eraill (2.1%). Felly, ymddengys fod hyn yn awgrymu bod y grwpiau hyn wedi'u gorgynrychioli yn y boblogaeth yn y carchar.

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

2.106. Gall y diffyg cydgysylltu rhwng gwasanaethau a chyfathrebu gwael achosi i bobl fod heb y cymorth sydd ei angen arnynt i ddod o hyd i gartref a/neu ei gadw wrth iddynt ddod yn rhan o'r system garchardai neu ei gadael. Gall gwell gweithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau tai a gwasanaethau cyhoeddus ehangach helpu i liniaru hyn.

2.107. Oherwydd yr amseroedd aros hir a'r achosion sydd ond yn cael sylw pan fydd pethau wedi mynd yn argyfwng a'i bod yn rhy hwyr weithiau i wasanaethau ddod o hyd i lety, mae risg y bydd unigolion sy'n gadael y carchar yn mynd yn eu blaen i aildroseddu er mwyn cael llety. Gall hyn arwain at achosion lle mae unigolyn yn cysylltu â gwasanaethau digartrefedd droeon, gan roi pwysau ar eu hadnoddau a chreu safon byw isel ansefydlog i'r unigolyn sy'n gadael y carchar. Gellir mynd i'r afael â hyn drwy ganiatáu i staff ymyrryd ar adeg gynharach yn y broses cyfiawnder troseddol er mwyn rhoi amser i wneud gwaith ataliol.

2.108. Gan fod pobl o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi'u gorgynrychioli yn y boblogaeth yn y carchar, gallai hyn olygu bod y cysylltiadau â digartrefedd a phrofiad o'r system garchardai yn cael mwy o effaith arnynt. Gall hyn hefyd awgrymu nad yw gwasanaethau digartrefedd i'r rhai sy'n gadael y carchar yn hygyrch i'r grŵp penodol hwn. Gall gweithio tuag at ddull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn helpu i liniaru hyn i ryw raddau.

2.109. Mae'r Papur Gwyn yn cyflwyno cyfres o gynigion cynhwysfawr ynglŷn â digartrefedd a'r system cyfiawnder troseddol a fydd yn ceisio sicrhau effeithiau cadarnhaol i'r grŵp hwn, yn enwedig ar y cam derbyn.

[123] Adroddiad Cydraddoldebau Troseddwyr Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi 2021/22 (publishing.service.gov.uk)

Cyn-aelodau o'r lluoedd arfog/cyn-filwyr

Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

2.110. Mae Cyfrifiad 2021 yn awgrymu bod tua 115,000 o gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yng Nghymru, sef 4.5% o'r boblogaeth.

2.111. Mae'r data yn awgrymu bod nifer y cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n dod drwy'r system ddigartrefedd yn isel. O'r 2,631 o aelwydydd roedd dyletswydd yn ddyledus iddynt yn 2018-19 (y flwyddyn lawn ddiwethaf y mae gennym ddata yn ei chylch) roedd rhwng chwech a naw yn aelwydydd cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog.[124] Fodd bynnag, mae'r gwaith ymgysylltu a wnaed gan Crisis a Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Papur Gwyn yn awgrymu bod cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yn wynebu nifer o rwystrau sy'n gysylltiedig â digartrefedd sydd i'w hystyried fel rhan o nodau'r Papur Gwyn.

2.112. Mae'r Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer gweithio amlasiantaethol, ond mae ein gwaith ymgysylltu yn awgrymu bod mwy i'w wneud o ran ymgorffori'r arfer hon ledled Cymru. Mae pecyn cadarn o gymorth i'r Lluoedd Arfog, eu teuluoedd a chyn-aelodau yng Nghymru eisoes ar waith a bydd hwn yn cael ei ategu drwy gyflawni nodau ehangach y diwygiadau arfaethedig hyn; er mwyn sicrhau bod ymateb a arweinir gan anghenion, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ystyriol o drawma i'r rhai sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd.

Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau?

2.113. Rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n cynrychioli cyn-aelodau o'r lluoedd arfog ac mae'r Papur Gwyn yn gwneud cynigion i adolygu'r llwybr presennol ar gyfer y grŵp hwn. Bydd y cynigion cyffredinol ar gyfer gwasanaeth sy'n ystyriol o drawma a newidiadau i'r cysylltiad lleol o fudd i'r grŵp hwn, yn ogystal â'n hymrwymiad i adolygu'r llwybr presennol.

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig[125]

2.114. Mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn diogelu hawliau dynol a rhyddidau sylfaenol fel y'i nodwyd yn ei 14 o erthyglau. Mae'n diogelu'r hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5) a'r hawl i gael treial teg, gan gynnwys wrth benderfynu ar hawliau sifil a rhwymedigaethau (Erthygl 6), ac yn gwahardd

[124] Aelwydydd a ganfuwyd yn gymwys i gael cymorth, yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol yn ystod y flwyddyn: Categorïau angen blaenoriaethol yn ôl math o aelwyd (adran 75) (llyw.cymru)
[125] Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol | Y Cenhedloedd Unedig

gwahaniaethu (Erthygl 14). Mae'r Confensiwn wedi'i ymgorffori yng nghyfraith y DU gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

2.115. Ni all Gweinidogion Cymru weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws ag unrhyw un o hawliau'r Confensiwn yn rhinwedd adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

2.116. Ein hasesiad cychwynnol yw bod y cynigion yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn ac nad ydynt yn cael effaith negyddol ar hawliau dynol pobl.

Hawliau Dynol	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau negyddol?
Erthygl 2 **Hawl i Fyw**	Nod y diwygiadau arfaethedig yw hwyluso proses o bontio tuag at ailgartrefu cyflym, gan weithredu dull mwy ataliol o ymdrin â digartrefedd. Bydd atal digartrefedd o'r adeg gynharaf bosibl yn helpu i liniaru'r effeithiau y mae digartrefedd yn eu cael ar iechyd cyffredinol a chorfforol. Gall dyletswyddau ar y gwasanaeth cyhoeddus ehangach hefyd fynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â marwolaethau ymhlith y boblogaeth ddigartref megis iechyd cyffredinol ac iechyd meddwl gwael a chamddefnyddio sylweddau.	Gellir cysylltu digartrefedd â marwolaethau ar oedran cynnar yn ôl data mewn adroddiadau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Yn ôl y ffigurau hyn, amcangyfrifir bod 741 o farwolaethau pobl ddigartref wedi cael eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr yn 2021 ac ymhlith dynion 45-49 oed a menywod 40 i 44 oed y gwelwyd y nifer uchaf o farwolaethau amcangyfrifedig. Hefyd, roedd tua 259 o farwolaethau pobl ddigartref a gofrestrwyd yn ymwneud â chyffuriau, sy'n cyfrif am 35.0% o'r holl farwolaethau amcangyfrifedig.	Nod y diwygiadau arfaethedig yw helpu'r rhai â'r anghenion mwyaf cymhleth i ddod o hyd i lety addas drwy ddull amlddisgyblaethol. Drwy weithio tuag at fynd i'r afael â phroblemau ynglŷn â digartrefedd megis iechyd, mae Llywodraeth Cymru yn anelu at wella sefydlogrwydd, diogelwch a bywyd ei hun i'r rhai sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd gan y byddai'r mesurau hyn yn lleihau nifer y marwolaethau cynnar ac estyn hyd oes.

		Roedd achosion a oedd yn ymwneud yn benodol ag alcohol yn cyfrif am 9.6% (71 o farwolaethau) ac roedd hunanladdiad yn cyfrif am 13.4% (99 o farwolaethau) o'r marwolaethau amcangyfrifedig. Ar y cyfan, roedd y tri achos hyn yn cyfrif am tua 57.9% o farwolaethau pobl ddigartref a gofrestrwyd yn 2021, a oedd yn gyson â blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn dangos bod cysylltiad rhwng iechyd meddwl gwael, camddefnyddio sylweddau a marwolaethau pobl ddigartref. [126]	
Erthygl 8 **Yr hawl i barch i fywyd preifat a theuluol a gohebiaeth**	Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at sicrhau y gall pobl gael llety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion a'i gadw er mwyn cael bywyd o ansawdd gwell a gwella eu	Gall diffyg amodau byw digonol ymyrryd â hawl unigolyn i fywyd preifat a theuluol. Mae tai yn hollbwysig i lawer	Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effeithiau'r cynigion drwy gamau ymgynghori a gweithredu i nodi problemau posibl

[126] Marwolaethau pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

	diogelwch a'u preifatrwydd personol a/neu deuluol. Rydym wedi cydnabod ers tro na ellir atal digartrefedd drwy ddarparu tai yn unig, a bod gan bob gwasanaeth cyhoeddus a'r trydydd sector ran i'w chwarae i roi diwedd arno. Drwy ehangu cyfrifoldeb am atal digartrefedd, byddwn yn creu cyfle i atal yr anfantais, trawma a tharfu ehangach y gall digartrefedd eu hachosi. Wrth wneud hynny, cawn gyfle i wella llesiant unigolion a'u cyfleoedd mewn bywyd, lleihau risgiau iechyd a chynyddu disgwyliad oes.	o agweddau eraill ar fywyd preifat a theuluol unigolyn, gan gynnwys iechyd corfforol ac iechyd meddwl, ansawdd bywyd, mynediad at addysg a chanlyniadau economaidd. Felly, mae tai diogel, sefydlog a fforddiadwy yn angenrheidiol i gyflawni llawer o hawliau dynol eraill, gan gynnwys diogelwch. [127]	neu risgiau sy'n dod i'r golwg rhag ofn y bydd angen unrhyw ddiwygiadau. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ochr yn ochr â gwaith polisi arall sy'n ymwneud â digonolrwydd a fforddiadwyedd tai.

[127] Naming Housing as a Human Right Is a First Step to Solving the Housing Crisis | Housing Matters (urban.org)

Erthygl 14 **Gwahardd gwahaniaethu mewn perthynas â'r hawliau a'r rhyddidau hyn**	Bydd yr hawliau a'r rhyddidau a nodir yn y Confensiwn hwn yn cael eu sicrhau heb wahaniaethu ar unrhyw sail megis, rhyw, hil, lliw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, cysylltiad â lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall.	Canfuwyd bod unigolion â nodweddion gwarchodedig yn profi heriau ychwanegol sy'n gysylltiedig â digartrefedd. Nododd Tai Pawb fod y rhain yn cynnwys anhawster i gael eraill i unioni eu sefyllfa neu ei deall, rhwystrau i hunaneirioli, diffyg gwybodaeth sydd ei hangen i helpu i'w sefyllfa gael ei deall neu ei rheoli'n well a dibyniaeth ar asiantaethau allanol i gael cymorth i ddatrys eu problemau. [128]	Bydd y diwygiadau arfaethedig yn ystyried sut y gall gwasanaethau tai fabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn wrth roi cymorth. Mae'r cynigion yn ystyried ychwanegu mwy o gynildeb at y prawf cysylltiad lleol er mwyn sicrhau nad yw hwn yn creu anfantais i grwpiau gwarchodedig a bod gwahanol fathau o rwydweithiau cymorth a chysylltiadau lleol yn cael eu hystyried. Ein nod yw gwneud y system gyfan yn fwy hygyrch.

[128] Experiences-of-homelessness-Final-Version-PDF.pdf (taipawb.org)

C. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymroddedig i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu hefyd wedi'i gynnwys yn un o'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth statudol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema gydgysylltiedig i Cymraeg 2050:



Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r gwahanol fathau o weithgareddau a allai effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os yw'n bosibl y gallai eich polisi gael effaith ar bobl, bydd yn cael rhyw fath o effaith ar siaradwyr Cymraeg ac ar y Gymraeg.

1. **Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru): 04/09/2023**

2. **A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026? Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021-2026**

   2.1. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr[129] yn amlinellu pwysigrwydd cynnal a thyfu cymunedau â niferoedd mawr o siaradwyr Cymraeg. Mae cysylltiadau â'r cynnig yn yr ystyr hon, gan y gall symudiad pobl i mewn i'r cymunedau hyn ac o'r cymunedau hyn gael effaith ar nifer y siaradwyr Cymraeg.

   2.2. Hefyd, mae adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[130] yn nodi creu diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu fel un o'r saith nod llesiant. Gan fod hyn yn ymwneud â gallu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cyfoethogi'n ddiwylliannol, mae'n bosibl bod ffactorau megis lleoli siaradwyr Cymraeg yn agos at gyfleusterau o'r fath fel ysgolion Cymraeg yn rhywbeth i'w ystyried.

   2.3. Hefyd, mae'r strategaeth yn cynnwys y weledigaeth o normaleiddio'r Gymraeg mewn cynifer o agweddau ar fywyd â phosibl. Mae hyn yn cynnwys cynnig gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg a rhoi canllawiau a hyfforddiant dwyieithog i bob aelod o'r gwasanaeth.

3. **Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oedran (effeithiau cadarnhaol a/neu effeithiau andwyol)? Dylech nodi eich ymateb i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, yn ogystal â chynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall:**

[129] Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr (llyw.cymru)
[130] Canllawiau Statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (llyw.cymru)

3.1. Yn ôl y data ar y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (Ebrill 2022-Mawrth 2023) yng Nghaerdydd (96,800), Gwynedd (91,800) a Sir Gaerfyrddin (87,500) y ceir y niferoedd amcangyfrifedig uchaf o siaradwyr Cymraeg.[131] Mae'n bwysig sicrhau nad yw'r cynigion a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn dieithrio'r cymunedau Cymraeg hyn. I'r rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg fel eu hiaith gyntaf, dylai gwybodaeth ynglŷn â sut y gallant gael cymorth a chyfathrebu â staff tai a digartrefedd fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Hefyd, mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg yn anelu at hybu a hwyluso darparu gwasanaethau dwyieithog er mwyn cynyddu'r ystod o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, ac i gynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg. Bydd yr holl ddeunyddiau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd yr holl ganllawiau a deunyddiau hyfforddi i staff tai a digartrefedd yn ddwyieithog. Bydd yr holl ddeunyddiau yn hygyrch.

3.2. Gallai'r cynnig i roi mwy o hyblygrwydd ynglŷn â'r cysylltiad lleol gael effaith negyddol o bosibl ar ddiogelu cymunedau Cymraeg eu hiaith. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i bobl gael eu symud i ardal awdurdod lleol arall er eu diogelwch a'u llesiant e.e. pobl sy'n ffoi rhag cam-drin domestig ac ati. Os bydd siaradwyr Cymraeg yn symud allan o'u hardal awdurdod lleol gall hynny gael effaith ar ba mor aml y maent yn defnyddio'r iaith, a fyddai'n niweidiol i'w gallu i'w chadw yn yr hirdymor a chael effaith negyddol ar barhad y defnydd o'r Gymraeg ymhlith cenedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, mae'r holl wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru ar gael yn ddwyieithog, felly ni ddylai fod cyfyngiad ar allu siaradwyr Cymraeg sy'n symud o'u hardal i gael gafael ar ddarpariaeth a gwasanaethau yn y Gymraeg megis gofal iechyd, addysg ac ati.

3.3. Hefyd, dylai awdurdodau lleol hyrwyddo'r Gymraeg er mwyn helpu siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddod yn rhan o gymunedau ledled Cymru. Fel rhan o Cymraeg 2050 i gynyddu nifer y siaradwyr, bydd darpariaeth addysg gynnar, gan gynnwys Mudiad Meithrin, Dechrau'n Deg, Seren a Sparc, Mae addysg yn dechrau yn y cartref ac ati, gan gynnwys digwyddiadau cymdeithasol drwy'r Mentrau Iaith ym mhob cymuned yn chwarae rhan hollbwysig wrth gynyddu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg ddefnyddio a chlywed y Gymraeg.

3.4. Mae'r strategaeth ar y Gymraeg yn sôn am gadw siaradwyr Cymraeg ifanc mewn cymunedau Cymraeg fel nod gan fod hyn yn hyrwyddo parhad y Gymraeg ymhlith cenedlaethau'r dyfodol. Mae symudiad pobl

[131] Data ar y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Ebrill 2022 i Fawrth 2023 | LLYW.CYMRU

ifanc o ardaloedd Cymraeg eu hiaith er mwyn mynd i'r brifysgol neu gael gwell mynediad at seilwaith megis cysylltiadau trafnidiaeth yn cael ei nodi fel bygythiad posibl i'r nod hwn. Fodd bynnag, gallai digartrefedd hefyd achosi risg gan y gall y person ifanc gael ei symud i ardal awdurdod lleol gwahanol o ganlyniad i fygythiadau i lesiant, diffyg tai addas/fforddiadwy neu er mwyn bod yn agos at systemau cymorth. Er mwyn mynd i'r afael â'r risg hon, gall timau awdurdodau lleol rannu gwybodaeth am addysg a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn eu hardal/cymuned.

3.5. Gallai cyflwyno'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg i mewn i gymunedau Cymraeg eu hiaith o bosibl wanhau'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny. Fodd bynnag, o dan yr adran yn y strategaeth ar y Gymraeg sy'n ymwneud ag integreiddio, ystyrir bod pobl nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg ac sy'n symud i Gymru yn gyfle. [132] Fel rhan o'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg, bydd Cwrs Llysgenhadon Diwylliannol ar gael i bob cymuned. Nod y cwrs hwn yw cefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith i groesawu a helpu'r rhai nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg ac sy'n symud i mewn i'r gymuned i integreiddio a theimlo rhan o'r gymuned a thrwy hynny gefnogi nod Cymraeg 2050 o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg.

3.6. Mae *'Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'* yn cael ei amlinellu fel un o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. [133] Mae nifer o weithgareddau a rhaglenni sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant a threftadaeth Cymru sydd ar gael am ddim neu sydd ar gael am ddim i deuluoedd incwm isel neu deuluoedd o dan anfantais. Mae hyn yn cynnwys Eisteddfod yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, Amgueddfa Cymru, llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau awdurdodau lleol a rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru megis y rhaglen Cyfuno.[134]

3.7. Hefyd, cynhelir nifer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn megis Drysau Agored sy'n cynnig mynediad am ddim i adeiladau hanesyddol, cestyll CADW, ac ati ledled Cymru. Mewn llawer o achosion, mae'n bosibl na fydd unigolion sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol o ganlyniad i iechyd meddwl a/neu iechyd corfforol gwael sy'n ymwneud eu hamgylchiadau o ran tai a'r ffaith eu bod yn gorfod blaenoriaethu anghenion tai dros agweddau eraill ar fywyd. Bydd nod y diwygiadau arfaethedig, sef sicrhau bod digartrefedd yn rhywbeth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd, yn

[132] Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr (llyw.cymru) tudalen 68
[133] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion [HTML] | LLYW. CYMRU
[134] Rhaglen Cyfuno (diwylliant yn gwella bywydau) | LLYW.CYMRU

cael effaith gadarnhaol yn hyn o beth gan ei bod yn golygu y bydd mwy o bobl yn byw mewn amgylcheddau cartref sefydlog sy'n ffafriol i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad personol a diwylliannol.

3.8. Mae'n bwysig bod staff sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig mewn lleoliadau gofal iechyd megis gwasanaethau iechyd meddwl a thai yn cynnig cymorth. Rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd cynnig gwasanaethau Cymraeg, oherwydd fel y mae Cyngor ar Bopeth wedi nodi yn ei ymchwil ddiweddar nid mater o ddewis yn unig yw gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Gwyddom hefyd fod llawer o siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwy cyfforddus yn mynegi eu hunain yn Gymraeg, yn teimlo'n fwy hyderus yn cyfleu eu hanghenion yn Gymraeg, ac yn meddwl ac yn byw eu bywydau yn Gymraeg. Felly, gellir dadlau pan na fydd gwasanaethau ar gael yn Gymraeg, mae hyn yn fethiant i fodloni gofyniad sylfaenol. Mae'n arbennig o wir yng nghyd-destunau rhai gwasanaethau neu lle mae defnyddwyr yn agored i niwed. Mae'n hollbwysig bod rhywun yn teimlo ei fod yn gallu mynegi ei hun a'i fod yn gyfforddus ac yn hyderus wrth gyfathrebu â darparwr gwasanaeth. [135]

3.9. Byddwn yn sicrhau bod darpariaeth yn y Gymraeg ar gael, bod canllawiau a hyfforddiant dwyieithog yn cael eu darparu i staff gwasanaethau tai a bod pwnc effeithiau canfyddedig cynigion ar y Gymraeg yn cael ei godi yn ystod y broses ymgynghori.

3.10. Bydd y Tîm Deddfwriaeth Atal Digartrefedd yn parhau i gyfathrebu â chydweithwyr yn Is-adran y Gymraeg er mwyn rhagweld a lliniaru problemau sy'n achosi risg i'r nodau a amlinellwyd yn y strategaeth ar y Gymraeg neu a all fod yn niweidiol i ddiogelu cymunedau Cymraeg eu hiaith.

[135] Hefyd ar gael yn Gymraeg: Deall y defnydd a'r diffyg defnydd o wasanaethau Cymraeg - Cyngor ar Bopeth